
Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012/13



© Hawlfraint y Goron 2013
Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Os oes ymholiadau gennych am y cyhoeddiad hwn ffoniwch Gymorth Cwsmeriaid ar 0844 892 1111 neu e-bostiwch customersupport@landregistry.gsi.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr ar www.official-documents.gov.uk a www.cofrestrfatir.gov.uk

ISBN: 9780102984514


Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Gyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2565877 06/13

Argraffwyd ar bapur gydag o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth rydym yn ei wneud a phwy ydym ni | 5 |
| Datganiad gan y Cadeirydd | 7 |
| Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 9 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid | 11 |
| Ffigurau'r flwyddyn hon | 16 |
| Golwg ar y flwyddyn hon | 19 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | |
| (a) Perfformiad busnes | 23 |
| (b) Manylion y cyfarwyddwyr | 25 |
| (c) Adroddiad cynaliadwyedd | 29 |
| Gwybodaeth gryno | 33 |
| Cyfrifon | 44 |
| Datganiad llywodraethu | 45 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 53 |
| Adroddiad tâl | 54 |
| Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | 62 |
| Datganiadau ariannol | 63 |
| Atodiad A Maint o waith | 85 |
| Atodiad B Ymateb i'r hinsawdd economaidd | 86 |
| Atodiad C Cofnod y Trysorlys | 88 |


View Register
start

# Beth rydym yn ei wneud a phwy ydym ni

## Beth rydym yn ei wneud

Ein prif swyddogaeth yw cadw'r gofrestr o deitl i dir a phridiannau rhydd-ddaliol a phrydlesol yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan fydd wedi'i gofrestru. Ar ran y Goron rydym yn gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddiannau mewn tir.

Gwasanaethwn boblogaeth o fwy na 55 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgeisi mwyaf gweithgar yn y byd. Mae tua 82 y cant o ehangdir Cymru a Lloegr wedi'i gofrestru, sef mwy na 12.6 miliwn o hectarau. Mae mwy na 23.5 miliwn o deitlau wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Tir.

Gweithredwn trwy nifer o swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr. Mae ein Prif Swyddfa a Swyddfa Croydon yn rhannu Trafalgar House yn Croydon. Mae ein Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth, swyddfa Plymouth a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn rhannu Seaton Court yn Plymouth.

## Pwy ydym ni

Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth a'n prif rôl yw cofrestru perchnogaeth tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr gan weithio yr un pryd i hybu twf economaidd a thryloywder data.

Mae ein sefydliad yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'n prif fusnes, a'r Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n adrannau llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Mae ein swyddogaethau yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau rhagorfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r grym i ni ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a dyma ein prif statud llywodraethol.

## Statws cyfreithiol

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir) yn 1862. Yn ogystal â bod yn adran o'r llywodraeth, rydym yn asiantaeth weithredol (ers 1990) ac yn gronfa fasnachu (ers 1993) ac nid ydym yn defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn darparu ar gyfer ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol. O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi, y Swyddfa Feteorolegol ac Arolwg Ordnans) 2011, trosglwyddwyd rhai swyddogaethau statudol yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir a oedd wedi'u breinio'n flaenorol yn yr Arglwydd Ganghellor, i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

## Y Prif Gofrestrydd Tir

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar baramedrau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn am rolau a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein *Dogfen Fframwaith 2012*.


2008 Twenty-two million
titles on the Land Register
2012 Land Registry
is 150 years old
1862
150 years of
Land Registry

# Datganiad gan y Cadeirydd



**Mark Boyle**
Cadeirydd

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cyflawni llawer yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi gweddnewid ein hunain i fod yn sefydliad llymach, sy'n edrych tuag at allan gyda mwy o bwyslais ar anghenion ein cwsmeriaid a chyda rolau newydd i'w chwarae yn cynorthwyo'r economi ehangach.

Bu'n un o'r newidiadau mwyaf sylfaenol yn hanes y sefydliad dros 150 o flynyddoedd - hanes a fu ym mlaen ein meddwl dros y 12 mis diwethaf. Wrth i ni fynd i'r afael â heriau'r 21ain ganrif, sef digideiddio a thryloywder data, buom hefyd yn myfyrio ar ben-blwydd creu'r sefydliad yn 1862 a sut oedd ein rhagflaenwyr wedi achub ar gyfleoedd y dydd.

Ein blwyddyn pen-blwydd oedd fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Cadeirydd Anweithredol annibynnol cyntaf y Gofrestrfa Tir hefyd ac rwy'n falch i agor y bennod newydd hon yn hanes y sefydliad.

Dathlwyd ein pen-blwydd drwy gasglu miloedd o bunnoedd i elusennau gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal ym mhob o'n swyddfeydd. Roedd brwdfrydedd cydweithwyr wrth iddynt gynllunio a chymryd rhan yn y gweithgareddau codi arian yn adlewyrchu eu hymrwymiad drwy'r flwyddyn gron at helpu eraill. I bob un ohonom roedd yn gyfle i ddathlu ein hanes ar adeg sy'n gweld ein hagenda cyfoes o heriau a chyfleoedd mor llawn ag y bu erioed.

Mae datblygu a gweithredu ein Strategaeth Fusnes newydd ar frig yr agenda hwnnw. Cymeradwywyd y strategaeth lefel uchel gan ein Gweinidog ym mis Rhagfyr ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar ei gweithredu yn ymarferol. Mae'n broses newidiol a chreadigol sy'n elwa ar syniadau ac arbenigedd o bob rhan o'r sefydliad, ac mae lefel y cymorth a'r brwdfrydedd a ddangoswyd ar bob lefel wedi creu cryn argraff arnaf.

Roedd ein Gweinidog wedi gosod her i ni "…..fod yn esiampl o sefydliad digidol a data canolog hynod effeithlon". Rydym eisoes wedi cymryd rhai camau pwysig o ran darparu gwasanaethau electronig a chyhoeddi data am ddim, ond gwyddwn fod llawer mwy y gallem ei wneud.

Gyda hyn a ffactorau eraill mewn cof, penderfynwyd ei bod hi'n briodol cynnal proses recriwtio agored ar gyfer rôl y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr er mwyn sicrhau ein bod yn penodi'r unigolyn gyda'r sgiliau mwyaf perthnasol i arwain y gwaith heriol o weithredu'r Strategaeth Fusnes.

Mae Malcolm Dawson wedi cyflawni'r rôl honno yn rhagorol ers 2011 ar gontract cyfnod penodol a hoffwn ddiolch i Malcolm am y cyfraniad pwysig iawn a wnaeth i'r Gofrestrfa Tir fel y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae wedi arwain y Gofrestrfa Tir yn ôl i sefydlogrwydd ariannol ac mae hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r Strategaeth Fusnes.


Mae Malcolm wedi cael ei olynu yn y swydd Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr gan Ed Lester sydd wedi cael gyrfa nodedig yn arwain sefydliadau eraill megis Mobility, NHS Direct ac, yn fwyaf diweddar, Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr drwy gyfnodau tebyg o drawsffurfio. Bydd ei wybodaeth a'i brofiad o faterion digidol a data, yn ogystal â'r heriau diwylliannol sy'n rhan gynhenid o newidiadau o'r fath, yn amhrisiadwy wrth arwain y sefydliad drwy gam nesaf ein datblygiad, sef gweithredu'r Strategaeth Fusnes.

Rydym hefyd wedi ailddynodi rôl y Cyfarwyddwr Cyllid fel Prif Swyddog Ariannol a hoffwn achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i Heather Foster ein Cyfarwyddwr Cyllid sy'n ein gadael ar ôl 22 o flynyddoedd o wasanaeth gyda'r Gofrestrfa Tir.

O ganlyniad i'n diwygiadau llywodraethu mae gennym Fwrdd sydd wedi'i rannu bron yn gyfartal bellach rhwng aelodau anweithredol a gweithredol, gan ddarparu'r oruchwyliaeth annibynnol a'r her adeiladol y mae ein cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid yn ei ddisgwyl.

Rydym wedi croesawu Catrina Holme, Tim Franklin a Kirsty Pearce fel Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd sydd wedi ychwanegu gwerth sylweddol ar unwaith at ein trafodaethau. Yn olaf rydym hefyd wedi ffarwelio â'r Cyfarwyddwr Anweithredol Dr Catherine Raines a hoffwn ddiolch iddi am ei chyfraniad at y sefydliad.

Gyda'r Strategaeth Fusnes yn ei lle, ein strwythurau llywodraethu newydd yn darparu'r lefel briodol o oruchwyliaeth ac arweiniad a chymysgedd o brofiad a syniadau newydd, teimlaf yn hyderus ein bod mewn sefyllfa iach wrth i ni gamu ymlaen i'r 150 o flynyddoedd nesaf.



**Mark Boyle**
Cadeirydd
Bwrdd y Gofrestrfa Tir

# Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr



**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

Rwy'n falch iawn o gael fy mhenodi, fel olynydd Malcolm Dawson, i'r rôl o Brif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr. Mae Malcolm wedi arwain y Gofrestrfa Tir yn ddeheuig ac yn effeithiol drwy ddwy flynedd heriol iawn. Mae'n ein gadael ni mewn sefyllfa ariannol iach gyda morâl staff wedi gwella a Strategaeth Fusnes wedi'i chymeradwyo. Edrychaf ymlaen at weithredu'r strategaeth gyda chymorth cydweithwyr talentog ac ymroddedig y mae eu gwaith yn cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwn.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o arloesi a llwyddiant i'r Gofrestrfa Tir. Er i ni gyflawni, fel erioed, ein rôl graidd o gofrestru yn fwy effeithlon, rydym hefyd wedi parhau i arallgyfeirio ein busnes a wynebu'r heriau a osodir gan agendâu twf a thryloywder data y Llywodraeth.

Wrth wraidd ein sefydliad yw'r timau gwaith achos yn ein 14 swyddfa leol. Rydym wedi symud o system o brosesu ceisiadau yn ôl lleoliad daearyddol i un lle mae pob tîm yn ymrwymo i wasanaethu nifer o fusnesau. Maen nhw wedi parhau i feithrin y berthynas bersonol sydd ganddynt â'u cwsmeriaid, gan gydweithio â nhw i wella'r gwasanaeth a gynigir. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn ein sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid o 98 y cant a'n perfformiad sy'n rhagori ar ein targedau ansawdd a chyflymder cofrestru.

Mae ein timau hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r bygythiad cyson o dwyll. Rydym wedi gwella ein mesurau atal twyll ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd helaeth i sut y gall perchnogion eiddo helpu i ddiogelu eu hunain. Rwy'n falch o ddweud ein bod ni wedi gweld cwymp yn nifer yr hawliadau yn erbyn ein Cronfa Indemniad gan berchnogion sydd wedi dioddef twyll cofrestru. Cafodd ein hymdrechion eu cydnabod gan yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol hefyd wrth i ni ennill y brif wobr yng nghategori atal twyll Gwobrau Ymladd Twyll, y tro cyntaf i'r gwobrau hyn gael eu rhoi.

Enillodd y Gofrestrfa Tir wobrau am reoli gwasanaeth TG hefyd, am gydraddoldeb a chynhwysiant ac am ein prosiect gyda'n partner TNT i drosglwyddo miliynau o ffeiliau o ganolfannau rhanbarthol i un lle storio. Roedd pob seremoni wobrwyo yn gyfle i gydnabod a dathlu llwyddiant ein staff. Roedd ein staff wedi gweithredu'n rhagorol hefyd yng nghynhadledd Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig - Gweithgor am Weinyddu Tir a gynhaliwyd yn Llundain, un o uchafbwyntiau ein blwyddyn pen-blwydd yn 150 oed.

Mae ein cyflwr ariannol yn gryf ar ôl yr anawsterau a achoswyd gan y cwymp yn y farchnad eiddo. Rydym wedi lleihau cost y gwasanaeth, gan barhau â'r tuedd cyson ar y lawr a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae ein sefyllfa ariannol yn ein rhoi ni mewn sefyllfa dda i ailfuddsoddi yn y busnes a gwneud mwy i wella effeithlonrwydd trawsgludo a hybu twf yn yr economi ehangach. Rydym yn ystyried y ffyrdd amrywiol y gall ein sgiliau a'n harbenigedd helpu cyfreithwyr, trawsgludwyr, prynwyr, gwerthwyr a'n budd-ddeiliaid eraill. Mae ein Gwasanaeth Cofrestru Dogfen electronig newydd yn cynnig ffordd gyflymach a mwy cost-effeithiol i'n cwsmeriaid busnes o wneud busnes â ni. Ac mae'r data am ddim sy'n cael ei ryddhau bob mis yn ateb y galw am wybodaeth werthfawr yn ymwneud ag eiddo.

Rhagwelir cynnydd pellach ym mhob un o'r meysydd hyn yn ein Strategaeth Fusnes bum mlynedd. Mae'r strategaeth yn cwmpasu popeth o allu staff i wasanaethau newydd. Digideiddio yw'r elfen allweddol efallai, rhywbeth sy'n golygu deall sut mae ein cwsmeriaid yn rhyngweithio â ni er mwyn i ni allu gwella eu profiad o'n gwasanaethau electronig.

Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i gyd er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith a byddwn yn parhau i ymestyn ein hamrywiaeth o wasanaethau electronig, bod yn rhagweithiol wrth ymladd twyll ac yn cydweithio â'n partneriaid ar draws y llywodraeth i wella effeithlonrwydd.

Wrth wraidd hyn i gyd mae ein gweithlu gwych. Rwy'n ddiolch iddyn nhw am eu hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn at gydweithio â nhw dros y blynyddoedd i ddod. Gyda'n gilydd rydym ni i gyd yn gwybod bod rhaid i'r Gofrestrfa Tir barhau i symud ymlaen. Nid yw technoleg a disgwyliadau cwsmeriaid byth yn aros yn eu hunfan ac ni allwn ni chwaith.



**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2013

# Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid




**Paul Hemsley**
Cyfarwyddwr Cyllid

*"Mae'r gwarged am y flwyddyn o £98.8 miliwn yn adlewyrchu i raddau helaeth y gostyngiadau cost flwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n gwneud iawn am ostyngiadau refeniw ac wedi'i lywio'n rhannol gan ein gorchymyn gostwng ffi."*

Roedd ein cyfanswm refeniw yn £347.2 miliwn (2011/12: £359.3m), i lawr 3 y cant neu £12.1m flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae maint trafodion, ar sail mynegai, o 9.9m uned (2011/12: 9.3m uned) i fyny 6 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, tra bo ein prif refeniw wedi corffori strwythur ffioedd newydd, yn weithredol o 22 Hydref 2012, gan geisio gostwng ffioedd 2011/12 gan 10 y cant ar gyfartaledd. Gweithredwyd y gorchymyn gostwng ffi yn hwyrach na'r disgwyl, gan leihau'r effaith blwyddyn lawn o ffioedd is.

## Refeniw: tuedd pum mlynedd




Yn yr adroddiad hwn am y tro cyntaf rydym wedi adlewyrchu darpariaeth o £45.7m ar 31 Mawrth 2013 ar gyfer hawliadau indemniad y gwyddys eu bod wedi codi ond sydd heb eu cofnodi (IBNR). Mae hwn yn wall oherwydd ceir atebolrwydd presennol ar gyfer IBNR sydd wedi'i gywiro bellach yn y cyfrifon hyn a'i gyfrif amdano o dan IAS 8 fel addasiad blwyddyn flaenorol. Mae'r atebolrwydd IBNR hwn wedi cael ei ddosbarthu fel darpariaeth mantolen gydag addasiad blwyddyn flaenorol o £45.9m a gostyngiad o £0.2m yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r ddarpariaeth hon, a esbonnir yn nodiadau 1.16 ac 1.25 ar y cyfrifon, yn amcangyfrif sy'n debygol o symud i fyny ac i lawr yn ystod blynyddoedd dilynol.

Mae costau gweithredu o £238.3m (2011/12: £257.7m ac eithrio IBNR) yn cynnwys costau cyflogau o £155.8m (2011/12: £162.4m) sy'n cyfateb i arbedion o 4 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu lleihad yn nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn cyfatebol ar 31 Mawrth o 4,060 (2011/12: 4,222). Codir tâl o £12.5m am gostau indemniad (2011/12: £8.8m) ac ailbrisiad ar i lawr o'r Gronfa Indemniad o £4.7m (2011/12: cynnydd o £5.0m). Mae costau gweithredu yn cael eu dadansoddi ymhellach yn ein tuedd costau gweithredu pum mlynedd a ddangosir yn Atodiad B.

Roedd gwariant indemniad yn gyfanswm o £11.9m (2011/12 £9.3m) ond roedd taliadau ar gyfer twyll a ffugio wedi disgyn gan 29 y cant, gan adlewyrchu'r gweithgareddau cadarn i wrthsefyll twyll a ffugio. Cafodd cyfanswm gwariant indemniad ei ystumio gan daliad mawr am un gwall ond mae rheolaethau priodol yn eu lle i leihau'r risg y bydd hyn yn ailddigwydd.

Yn dilyn cwblhau'r gweithgareddau ailstrwythuro drwy'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig, y costau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn ystod y flwyddyn oedd £10.5m (2011/12: £21m). Uchafbwyntiau eraill oedd elw cyffredinol ar waredu o £3.9m (sy'n cynnwys yr elw ar waredu cyn Swyddfa Lytham o £4.3m) (2011/12: £5.2m), incwm buddsoddiad o £1.5m (2011/12: £1.2m), arwystlon prydles cyllid o £0.9m (2011/12: £0.9m) a chostau amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth a ddaeth ar-lein yn 2010/11 o £4.1m (2011/12: £4.4m). Y cyfanswm costau yw £248.4m (2011/12: £277.7m, ac eithrio IBNR). Mae hyn yn ostyngiad o £29.3m, ac eithrio'r £45.9m o addasiad blwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiadau hyn yn adlewyrchu tuedd ac ymdrech barhaus i sicrhau effeithlonrwydd gydag arbedion costau rhedeg wedi'u haddasu yn ystod y flwyddyn o 6.6 y cant, sef 37.7 y cant cronnus o 2008/9.

Y gwarged am y flwyddyn yw £98.8m (2011/12: £81.6m, ac eithrio'r addasiad blwyddyn flaenorol o £45.9m) sy'n adlewyrchu'n bennaf y gostyngiadau cost flwyddyn ar ôl blwyddyn a lleihad yn y tâl Cronfa Indemniad sy'n gwneud iawn am ostyngiadau refeniw. Ein henillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd oedd 23.4 y cant (2011/12: 8.1 y cant), gan adlewyrchu effaith y gostyngiadau cost ATP hirdymor a'r gorchymyn newydd a weithredwyd yn ystod 2012/13, er yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd gweithgareddau trawsnewid. Ein cost yr uned oedd £23.36, sy'n llawer gwell na'r targed perfformiad allweddol o £28.41.

Mae cynnydd difidend o £26m (2011/12: £13.8m) yn seiliedig ar enillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd diwygiedig o 6.3 y cant (2011/12: 3.5 y cant), sef cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn o 88 y cant.

## Datganiad o sefyllfa ariannol

Mae'r datganiad o sefyllfa ariannol yn parhau'n gryf a chynyddodd asedau net i £435.5m (2011/12: £364m) ar ôl cyfrif am y ddarpariaeth IBNR a addaswyd y flwyddyn flaenorol o £45.7m. Y mewnlif arian yw £92.8m (2011/12 £80.2m), gan adlewyrchu'r gwarged am y flwyddyn, gydag arian yn y banc wrth gau o £472.6m (2011/12: £379.8m).

## Asedau anghyfredol

Cafodd yr ystad ei phrisio'n allanol gan y Swyddfa Brisio, gan greu cynnydd ym mhrisiad cyffredinol ein hadeiladau sy'n weddill o £3m. Gwerth ein hystad yn y cyfrifon hyn yw £77m.

Ein cyfanswm gwariant cyfalaf oedd £2.7m

Symudodd asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu yn sgil gwerthu cyn Swyddfa Lytham yn ystod y flwyddyn a throsglwyddo cyn Swyddfa Nottingham a Drakes Hill Court yn Plymouth i asedau a ddelir i'w gwerthu.

## Y Gronfa Indemniad a darpariaeth IBNR

Mae gwerth darpariaeth y Gronfa Indemniad y flwyddyn hon wedi gostwng i £22.1m yn dilyn adolygiad allanol gan Lane Clark & Peacock, ein hactiwarïaid. Effaith y gostyngiad hwn yn y ddarpariaeth oedd cynnydd o £4.7m yn ein gwarged gweithredu. Cyflwynwyd darpariaeth IBNR newydd o £45.9m fel addasiad blwyddyn flaenorol ar 31 Mawrth 2012 a chynyddodd ein gwarged gweithredu gan £0.2m gan fod y gronfa yn £45.7m ar 31 Mawrth 2013.


## Rheolaeth y Trysorlys

Mae rheoli asedau hylifol yn cael ei bennu gan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993, y Gorchymyn Asedau Ychwanegol 1996, y Gorchymyn Estyn a Diwygio 2003 a Dogfen Fframwaith 2012. Mae gweddillion arian anweithredol yn cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n dwyn llog yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gyda gweddill yn cael ei gadw gyda banc masnachol y DU.

## Perfformiad

Cyrhaeddwyd 14 o'n 16 targed (gweler tudalen 23). Llwyddwyd i gynyddu ein sgôr ymgysylltu â gweithwyr i 48 y cant, o'i gymharu â 45 y cant ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ond methu o ychydig wnaethom i gyrraedd y targed o 50 y cant. Mae gwella ein sgôr ymgysylltu yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2013/14. Er i ni gael refeniw 'Add Value' masnachol o £4.4m ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o £6m. Rhan o'r rheswm sylfaenol am hyn oedd y newid pwyslais i ryddhau data am ddim, sydd wedi lleihau'r refeniw masnachol.

## Gweithgareddau yn y dyfodol: Strategaeth Fusnes a Chynllun Busnes




Mae ein gweithgareddau yn y dyfodol yn cael eu hysgogi gan y Strategaeth Fusnes a gafodd ei chymeradwyo gan weinidogion yn Rhagfyr 2012. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i hymgorffori bellach o fewn ein Cynllun Busnes cyffredinol ar gyfer 2013-18, yn cyfuno ein hamcanion a gweledigaeth newydd sy'n nodi ein huchelgais i weld newid arwyddocaol gan gynnwys:

- cynnydd o 60 y cant mewn cynhyrchedd
- e-alluogi 90 y cant o holl geisiadau'r Gofrestrfa Tir
- digideiddio data mewn 354 o awdurdodau lleol - ehangu rôl y Gofrestrfa Tir a gwneud trawsgludo yn haws ac yn rhatach
- uwchraddio ein systemau cofrestru a gwybodaeth ddaearyddol (GI) a etifeddwyd
- gwneud y defnydd mwyaf o ddata'r Gofrestrfa Tir er budd yr economi ehangach
- lleihau costau rhedeg gan £40 miliwn y flwyddyn.

Cyhoeddir y targedau hyn yn ein Cynllun Rheoli Blynyddol sydd ar gael ar ein gwefan: www.landregistry.gov.uk/media/about-us/annual-reports. Gan adlewyrchu amcanion budd-ddeiliaid lluosog, mae gwaith wedi dechrau ar wahân ar orchymyn ffi newydd y disgwyliwn ei weithredu yn ystod 2013/14, yn amodol ar ymgynghori os oes angen. Mae'r targedau o fewn y Cynllun Rheoli Blynyddol wedi cael eu cyhoeddi yn y Senedd drwy ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn dilyn adolygiad gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

# Prif dueddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol

Y prif duedd sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol yw lefel gweithgarwch y farchnad dai. Caiff hyn ei adolygu'n gyson gan ddefnyddio amryw o ddangosyddion o ffynonellau mewnol ac allanol. Ein rhagdybiaeth ar gyfer y flwyddyn 2013/14 yw y bydd gweithgaredd yn parhau'n weddol wastad, ac yn gyson â'r maint o waith a gafwyd yn 2012/13.

# Cyfarwyddiaethau a buddiannau arwyddocaol

Mae ein Cadeirydd Anweithredol Mark Boyle yn aelod o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Prif amcan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr yw bod yn gyfranddalwyr effeithiol o fusnesau a berchenogir neu a berchenogir yn rhannol gan y Llywodraeth a rheoli ymyraethau'r llywodraeth yn y sector preifat er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr. Nid yw'n cymryd rhan mewn penderfyniadau'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr sy'n ymwneud â'r Gofrestrfa Tir.

# Perthnasoedd allweddol

Rydym yn parhau i fwynhau perthnasoedd cynhyrchiol da â'n cyflenwyr allweddol, gyda phroses rheoli contractau a chyflenwyr ddisgybledig. Mae'r gwaith a wneir gan ein cyflenwyr allweddol, gan gynnwys Steria, TNT, Carillion ac IBM yn cael ei fonitro'n agos gan dimau o'r busnes sy'n gweithio gyda'r adran gaffael. Gyda'i gilydd maent yn sicrhau bod y gwasanaeth dan gontract yn cael ei gyflenwi'n effeithiol a bod cyfleoedd yn cael eu ceisio i wella gwerth am arian.

Cafodd y dull gweithio mewn partneriaeth hwn ei gydnabod wrth i ni ennill gwobr Partneriaid mewn Gwasanaethau Arbenigol y cylchgrawn *Premises & Facilities Management* ar gyfer ein prosiect gyda TNT i ganfod cwmni allanol ar gyfer ein gwasanaeth storio ac adfer ffeiliau, prosiect sydd wedi creu arbedion cost sylweddol a hefyd gwella dulliau cyflenwi gwasanaeth.

Gwneir defnydd cynyddol erbyn hyn o gontractau trawslywodraethol, yn unol â pholisi caffael Swyddfa'r Cabinet.

# Pensiynau

Ceir manylion sy'n dangos sut y caiff costau a rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon yn nodiadau 1.6 a 4.4.o'r cyfrifon ac yn yr adroddiad Tâl.

# Taliadau

Cydymffurfiwn â Deddf Hwyrdalu Dyled Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu'n Well. Yn ystod y flwyddyn talwyd 96.5 y cant o anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr o fewn pum diwrnod gwaith. Nid yw'r canrannau hyn yn cynnwys anfonebau sy'n destun dadl.

## Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae risgiau strategol yn cael eu rheoli ar lefel Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae risg i'r gyfarwyddiaeth yn cael ei reoli gan bob cyfarwyddwr. Mae'r risg i raglenni a phrosiectau yn cael ei reoli o fewn y paramedrau a osodwyd ar gyfer y byrddau perthnasol. Mae risg i wybodaeth yn cael ei reoli yn unol â chanllawiau CESG (yr awdurdod technegol cenedlaethol ar gyfer sicrwydd gwybodaeth). Mae'r risg yn cynyddu os yw'r archwaeth risg yn cael ei ragori a gallai fod effaith andwyol ar dargedau, enw da neu weithrediadau o ganlyniad.

Wynebwn heriau a risgiau i gyflawni ein hamcanion busnes a'n hamcanion strategol. Mae risgiau strategol cyfredol allweddol yn ymwneud â chofrestru twyll; methiant ein systemau busnes a chyfanrwydd ein cofrestr; methiant ar ran budd-ddeiliaid i gefnogi gwasanaethau newydd; methiant cwsmeriaid i ddefnyddio ein cynhyrchion, sianeli a gwasanaethau newydd; a'r anallu i roi yn eu lle y bobl a'r sgiliau iawn i gyflawni'r amcanion busnes. Ceir risg penodol hefyd i weithredu ein Strategaeth Fusnes, gan gynnwys pobl, gallu a chyflenwi'r buddion a fwriedir.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol (C&AG). Y gost ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r archwiliad statudol ar gyfer 2012/13 oedd £67,500 (2011/12: £67,500).



**Paul Hemsley BA FCA FRSA CPFA**
Cyfarwyddwr Cyllid
12 Mehefin 2013

# Ffigurau'r flwyddyn hon

1862 | 150 o flynyddoedd o'r Gofrestrfa Tir | 2012

Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid

**98%**

Nifer y gwobrau a enillwyd


1 2 3 4

Teitlau cofrestredig

**23.5** miliwn

Nifer y gweithwyr

**4,579**




Nifer y ceisiadau

Cyfanswm 23,915,223

Electronig 17,642,918

## Nifer yr hyrwyddwyr amrywiaeth



28

## Nifer y lleoliadau swyddfa

14



## Incwm

£347.2m

## Difidend a dalwyd i'r Trysorlys

£26m

## Gwarged a gadwyd

£72.8m

## Costau gweithredu

£238.3m



# Golwg ar y flwyddyn hon

Cychwynnodd y flwyddyn drwy gyhoeddi ein Data Tueddiadau'r Farchnad yn unol ag agendâu twf a thryloywder data y Llywodraeth a daeth i ben gyda lansio ein Strategaeth Fusnes weddnewidiol, gyda'r Gofrestrfa Tir yn bresenoldeb rhagweithiol yn economi'r wlad.

Mae'r strategaeth, a gafodd ei chymeradwyo gan ein gweinidogion yn Rhagfyr 2012, yn esbonio sut y byddwn yn datblygu ein rôl a'n harbenigedd mewn ffordd sy'n hybu twf economaidd dros y pum mlynedd nesaf, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes sef effeithlonrwydd, data, sicrwydd a gallu. Ein nod yw cael ein cydnabod fel corff sy'n arwain y byd ym maes digideiddio gwasanaethau cofrestru tir a rheoli a galluogi ailddefnyddio'r data sydd gennym.

Dyma'r cam olaf yn ein taith o fod yn ddarparwr dibynadwy ond goddefol yn bennaf o wasanaethau cofrestru tir i sefydliad sy'n chwarae rhan allweddol wrth hybu effeithlonrwydd a pherfformiad y farchnad eiddo a'r economi ehangach.

Mae cofrestru tir wedi bod yn sail i'r farchnad eiddo ers tro byd - cydran allweddol o dwf - drwy ddiogelu perchnogaeth gwerth biliynau o bunnoedd o dai, adeiladau masnachol ac isadeiledd. Erbyn hyn rydym yn defnyddio ein sgiliau a'n harbenigedd i wella effeithlonrwydd y system drawsgludo gan ryddhau data am ddim mewn fformatau hawdd eu defnyddio i ysgogi syniadau creadigol pobl eraill.

Mae ein Strategaeth Gwsmeriaid yn cael ei datblygu ymhellach i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Ein nod sylfaenol yw bod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sy'n gwrando ar ein cwsmeriaid ac sy'n bodloni eu hanghenion am bris y gallwn ni ac y gallan nhw ei fforddio.

Mae ein safonau gwasanaeth trylwyr yn amlinellu sut y bwriadwn eu gwasanaethu nhw yn seiliedig ar ein gwerthoedd. Mae'r sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid o 98 y cant eleni yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd yn ein huchelgais o geisio gwasanaethu ein cwsmeriaid yn well.

Rydym wedi ehangu diwygiadau a mentrau mawr, megis timau cwsmeriaid ymroddedig sy'n helpu ein cwsmeriaid sy'n fwyfwy amrywiol ac ymwybodol o dechnoleg i weithio'n fwy effeithlon. Erbyn hyn mae bron 5,000 o fusnesau wedi cofrestru i weithio gyda'n timau cwsmeriaid.

Mae ein hystod gynyddol o wasanaethau electronig yn cyfrannu at broses drawsgludo gyflymach, fwy effeithlon a mwy fforddiadwy. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau rhagarweiniol yn cael eu prosesu heb unrhyw ymyrraeth â llaw ac, yn dilyn ymgynghori, rydym wedi cau ein gwasanaethau archebu dros y ffôn mewn ymateb i ostyngiad mawr yn y galw (gweler drosodd).

Mae lansio ein Gwasanaeth Cofrestru Dogfen electronig (e-DRS) eleni ar ddwy o'r e-sianeli - y porth a Business Gateway - yn golygu bod llawer mwy o geisiadau yn gallu cael eu cyflwyno ar-lein. Adeiladwyd e-DRS gan ein timau Systemau Gwybodaeth mewnol yn seiliedig ar weledigaeth a mewnwelediad cwsmeriaid ein cyfarwyddiaethau Masnachol a Chwsmeriaid a Gweithrediadau.

**Canu clod: gwobrau ar draws y bwrdd**

Enillodd y Gofrestrfa Tir amryw helaeth o wobrau yn ystod y flwyddyn: Tîm Rheoli Gwasanaeth y Flwyddyn y Fforwm Rheoli Gwasanaeth TG; gwobr Partneriaid mewn Gwasanaethau Arbenigol y cylchgrawn *Premises & Facilities* am ein prosiect storio ffeiliau gyda TNT (yn y llun ar y dde); y brif wobr yng nghategori atal twyll Gwobrau Ymladd Twyll yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol; a Chyflogwyr Mawr y Flwyddyn yng ngwobrau Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Yn ogystal cawson ni ein cynnwys ar restr fer dau gategori yng Ngwobrau Bodlonrwydd Cwsmeriaid y DU y Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid.





**Cynhadledd i'w chofio: croesawu'r byd i Lundain**

Daeth cynrychiolwyr o bob rhan o Ewrop a thu hwnt ynghyd ar gyfer cynhadledd Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) a gynhaliwyd gan y Gofrestrfa Tir yng nghanol Llundain ym mis Hydref. Ar ein hawgrym ni aeth y Gweithgor am Weinyddu Tir UNECE ati i drafod sut y gall awdurdodau cofrestru tir helpu i adfer economi'r byd. Trafodwyd materion cyffredin ac ymagweddau gwrthgyferbyniol mewn meysydd megis technoleg, data agored, safonau cyffredin, diogelwch ac atal twyll yn yr "awyrgylch deinamig" a gafodd ei ganmol gan y Cadeirydd Damir Pahic.

Cafodd bron 72,000 o geisiadau eu cyflwyno drwy e-DRS erbyn diwedd mis Mawrth. Cofnodwyd bron 7.5 y cant o ddeliadau - ceisiadau sy'n effeithio ar deitl cofrestredig - drwy e-DRS. Mae hyn wedi cyfrannu at gyfanswm o 40 y cant o'r holl ddeliadau sy'n cael eu derbyn yn electronig, y rhan fwyaf ohonynt yn rhyddhadau o forgeisi.

Mae cyflymu darparu gwasanaethau lle mae amser o'r pwys mwyaf i'n cwsmeriaid wedi bod yn flaenoriaeth, megis chwiliadau cyn gwerthu. Adolygwyd ein polisi canslo a gwrthod hefyd ac felly erbyn hyn rydym yn chwilio am ffyrdd o wella ansawdd ceisiadau cwsmeriaid yn hytrach na'r rhesymau dros eu gwrthod (gweler tudalen 21). Rydym yn cyfathrebu â chwsmeriaid mewn ffyrdd newydd gyda defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, Google, YouTube, LinkedIn a Facebook tra bo ein gwefan ar ei newydd wedd yn denu bron 360,000 o ymwelwyr unigryw bob mis.

**Yr alwad olaf: o'r ffôn i'r we**

Roedd ein gwasanaeth archebu dros y ffôn wedi cymryd ei alwad olaf ym mis Rhagfyr ar ôl i ymgynghoriad gadarnhau nad yw'r gwasanaeth yn chwarae'r rôl ganolog yr arferai ei gwneud ym musnesau cwsmeriaid.
Fe'i lansiwyd yn 1993 ac yn ei hanterth roedd ein canolfannau galwadau yn derbyn 17,000 o alwadau ac yn prosesu 24,000 o drafodion y dydd. Ond mae nifer y galwadau wedi lleihau'n raddol wrth i wasanaethau ar-lein fod yn fwyfwy poblogaidd a chaewyd y canolfannau fesul un nes iddynt gael eu huno â'n ganolfan cyswllt cwsmeriaid yn 2009.

Mae ein Warws Data Menter yn cyflenwi ein data i'r byd mawr. Cyrhaeddwyd ein hamcan perfformiad allweddol o ryddhau ein data mewn fformat peiriant-ddarllenadwy i ennill gradd pedair seren fel yr argymhellir gan gonsortiwm y We Fyd-eang. Roedd ein Data Pris a Dalwyd wedi cael ei lwytho i lawr 80,000 o weithiau erbyn diwedd y flwyddyn, gan ganiatáu i gwmni megis Halifax i ddatblygu ei ap ffôn symudol Home Finder sy'n darparu gwasanaeth siop un stop ar gyfer lleoli eiddo sydd ar werth.

Mae refeniw treth hanfodol yn cael ei adennill diolch i'n dulliau rhannu data â Chyllid a Thollau EM tra bydd prosiectau hybu twf megis High Speed 2 yn defnyddio ein data, boed am ddim neu am dâl, drwy ein gwasanaethau statudol a masnachol 'Add Value'.

Un o effeithiau rhyddhau data fu arafu twf ein hincwm masnachol ac amnewid refeniw, gyda chwsmeriaid ein gwasanaethau talwyd amdano yn troi at ein pecynnau data am ddim. Yn rhannol o ganlyniad i hyn rydym heb gyrraedd ein dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer incwm masnachol, er i ni ennill mwy na £4.4 miliwn a rhagori ar ein targed elw.

Ochr yn ochr â hyn cafwyd rhai o'n canlyniadau gorau erioed o ran bodloni ein hamcanion blynyddol, megis ansawdd a chyflymder cofrestriadau ac argaeledd mwyaf erioed ein systemau TG, sef 99.7 y cant.

Mae ein perfformiad wedi'i seilio ar yr arbedion effeithlonrwydd sydd wedi gwella ein hiechyd ariannol. Drwy hyn roeddem yn gallu trosglwyddo arbedion blynyddol o £33 miliwn i gwsmeriaid ar ffurf gostyngiad yn y ffioedd chwilio eiddo a chofrestru o 10 y cant ar gyfartaledd, gan ostwng costau trafodion er lles yr economi. Byddwn yn parhau i adolygu ein ffioedd.

Nid yw'r farchnad eiddo yn dangos llawer o dwf o hyd ond roedd ein llwyth gwaith cyffredinol wedi parhau i gyfateb yn fras â'r hyn a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn. Derbyniwyd 23,915,223 o geisiadau, ac o'r rhain roedd 17,642,918 neu 73.8 y cant yn geisiadau ar-lein. Mae swm y gwaith yn cyfateb i 9.9m uned, cynnydd o 9.3m neu 6 y cant o'i gymharu â 2011/12. Cofrestrodd ein timau 415,482 hectar o dir am y tro cyntaf, gan gymryd y cyfanswm i 12,628,621 hectar a chanran yr ehangdir yng Nghymru a Lloegr ar y Gofrestr Tir i 81.9 y cant.

Rydym yn parhau i fwynhau manteision yr arbedion a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol drwy roi gwasanaethau i gwmnïau allanol ac aildrafod trefniadau dan gontract ac mae'r rhain wedi cael eu hategu gan arbedion o'r newydd. Yn ein cynhadledd flynyddol ar gyfer ein cyflenwyr canolbwyntiwyd ar y Strategaeth Fusnes, gan eu hannog i gynnig syniadau ar sut y gallen nhw ein helpu ni i'w gweithredu.

**Meithrin perthynas: cydweithio â'n cwsmeriaid**

Drwy fonitro a dadansoddi'r ceisiadau gan gwsmeriaid sy'n cyflwyno nifer fawr o waith mae Countrywide wedi cynyddu ei gyfradd ansawdd a llwyddiant, gan arbed amser ac arian iddyn nhw ac i ni. Mae tîm cwsmeriaid y cwmni yn Swyddfa Penbedw wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas waith agos a dibynadwy dros y ffôn a wyneb yn wyneb. Dywedodd Laura Somers, Rheolwr Taliadau Gwasanaethau Trawsgludo yn Countrywide: "Roedd manteision cael tîm cwsmeriaid ymroddedig yn amlwg bron yn syth. Trefnon ni gyfarfodydd wyneb yn wyneb i ddeall ein gofynion ni a sut y gallem ni wella ein prosesau presennol er lles pawb."

**Model newydd: menter Pridiannau Tir Lleol**

Mae'r fenter Pridiannau Tir Lleol yn gyfle i ni sefydlu gwasanaeth digidol cost is a symlach ar gyfer chwiliadau awdurdodau lleol a sefydlu un gofrestr safonol. Er mwyn paratoi ar gyfer y prosiect aethpwyd ati i gyfweld ag awdurdodau lleol, cwmnïau chwilio personol a chyflenwyr meddalwedd a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau a gweithdai gan gadarnhau consensws cyffredinol y byddai gwybodaeth wedi'i digideiddio ynghyd â phroses safonol o fudd i'r farchnad. Buddsoddwyd bron £234,000 yn ystod y flwyddyn i ddatblygu model yn dangos sut y gallem ni ddarparu'r gwasanaeth drwy gydweithio â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a budd-ddeiliaid diwydiant.

Gan gydweithio â'n partner TNT cwblhawyd y gwaith o drosglwyddo 2.2 miliwn o flychau o ffeiliau o'n rhwydwaith o storfeydd ffeiliau rhanbarthol i'r ganolfan rheoli cofnodion Cross Point yn Coventry. Cafodd llwyddiant y prosiect - a ddisgrifiwyd fel y symudiad mwyaf o gofnodion ar gyfer unrhyw sefydliad yn y DU - ei gydnabod drwy ennill gwobr Partneriaid mewn Gwasanaethau Arbenigol y cylchgrawn *Premises & Facilities Management*.

Fel rhan o'n strategaeth ystadau rydym wedi parhau i ddefnyddio gwerthiannau eiddo i symleiddio ein hystad a chreu refeniw, gyda rhan o'n cyn Swyddfa Nottingham yn agos at gael ei gwerthu a'n cyn Swyddfa Lytham wedi cael ei gwerthu am £3.1 miliwn. Mae ein timau ystad a chyfleusterau wedi rheoli dau symudiad swyddfa yr un pryd yn cynnwys mwy na 650 o aelodau staff wrth i ni lunio prydlesi newydd ar adeiladau canol ddinas modern yn Nottingham a Peterborough.

Mae ein hymgyrch i sicrhau effeithlonrwydd wedi golygu bod tenantiaid nifer o'n hadeiladau yn dod o adrannau ac asiantaethau eraill o'r llywodraeth, a'r diweddaraf yw'r Gwasanaeth Prawf sy'n defnyddio lle yn Swyddfa Caerloyw. Gweithiwn gyda phartneriaid sector cyhoeddus mewn ffyrdd eraill hefyd ac o Ionawr 2013 trosglwyddodd ein syrfewyr i Arolwg Ordnans, gan greu arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd i'r ddau sefydliad. Buom yn croeswirio ein data hefyd â Thŷ'r Cwmnïau a'r Swyddfa Brisio.

Rydym wedi llwyddo i greu newid mawr yn ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cwblhawyd prosiect newid gweinydd a mudo mawr yn ddi-dor gan Systemau Gwybodaeth. Gwnawn 300 i 400 o newidiadau i'n systemau cyfrifiadurol bob mis, a gododd i 1,000 adeg newid y gweinyddion.

Cydnabuwyd arbenigedd rheoli gwasanaeth Systemau Gwybodaeth drwy ennill gwobr Tîm Rheoli Gwasanaeth y Flwyddyn Fforwm Rheoli Gwasanaeth TG ac ennill achrediad ISO 20000, gan wneud y Gofrestrfa Tir yn un o ddyrnaid yn unig o sefydliadau sector cyhoeddus i gael y fath gymeradwyaeth.

Mae ymladd twyll eiddo wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth, nid lleiaf oherwydd bod dileu twyll yn cyfrannu at economi fwy iach. Cafodd yr Uned Twyll Cofrestru lwyddiannau niferus gan ennill un o wobrau cyntaf Gwobrau Ymladd Twyll. Penderfynwyd parhau â'n menter ffurflen RQ gan roi cyfle i berchnogion nad ydynt yn byw yn eu heiddo i ddiogelu eu hasedau drwy roi cyfyngiad diogelu ar y gofrestr yn gyflym ac yn ddi-dâl.

Mae ein cost indemniad net ar gyfer twyll i lawr 30 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae unrhyw un sy'n cael colled yn cael ei ddigolledu ac rydym yn dysgu trwy'r amser o'r hawliadau a gawn. Rydym yn ffyddiog y bydd y mesurau atal twyll sydd gennym yn eu lle yn parhau i fynd i'r afael â thwyll a'r symiau digolledu a dalwn.

Ni fyddai hyn yn bosib heb ein gweithlu medrus a phrofiadol sydd â hanes cryf o arloesi, rhoi sicrwydd a chyflenwi. Mae cyfanswm nifer y staff wedi parhau'n weddol sefydlog dros y flwyddyn ar ôl y newidiadau mawr o 2008/9 a welodd y ffigur yn haneru bron i 4,579. Mae'r rhai sy'n aros wedi ymdopi'n dda â'r heriau a wynebant.

Er i ni fethu â chyrraedd y targed ar gyfer lefel yr ymgysylltu â gweithwyr, mae'n duedd sydd ar i fyny o 45 y cant y llynedd i 48 y cant eleni yn dilyn cyfradd ymateb o 72 y cant i'r arolwg staff. Mae absenoldeb salwch yn lleihau ac mae ymgynghori â'r undebau yn drwyadl ac yn gydlynol.

Mae ein Strategaeth Bobl wedi cael ei haddasu i gefnogi'r Strategaeth Fusnes, gyda'i phwyslais cryf ar allu. Mae cyflwyno'n raddol fethodoleg gwella parhaus Lean - o'r enw Perfformio ac Arloesi - yn elwa ar wybodaeth, brwdfrydedd a gallu i addasu ein pobl ar lawr gwlad, pobl sydd yr un mor awyddus â'u rheolwyr i ganolbwyntio ar gael achosion 'yn gywir y tro cyntaf'. Mae mwy o grwpiau wedi ymuno â'r treialon ac mae ein harbrawf 'patrwm o swyddfa' yn Swyddfa Coventry yn dechrau gweld llwyddiannau.

Mae ein pobl wedi parhau i ddangos eu hysbryd hael drwy wirfoddoli a chodi arian i elusennau, nid lleiaf yn ystod ein dathliadau pen-blwydd yn 150 oed pan aeth pob swyddfa ati i godi arian ar gyfer achos o'i dewis. Cafodd Sue Malley o Swyddfa Peterborough BEM am ei gwaith elusennol a chafodd Lucy Mason o'r Brif Swyddfa MBA am ei gwasanaethau i'r Gofrestrfa Tir.

Rhoddodd nifer o gydweithwyr eu hamser i wasanaethu fel Hyrwyddwyr Gemau neu Genhadon Llundain yn ystod y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a chefnogi cynhadledd UNECE (gweler tudalen 20).

**Staff arbennig: arwain y ffordd yn yr her gerdded**

Roedd yr Elusen i Weision Sifil wedi creu Gwobr Llwyddiant Arbennig i'r Gofrestrfa Tir fel yr adran gyda'r staff a gerddodd y pellter mwyaf yn yr Her Rhith-gerdded genedlaethol. Roedd timau ac unigolion wedi cadw cofnod o'u camau dyddiol ar wefan ryngweithiol wrth iddynt ddechrau colli pwysau, magu perthynas agosach â'u cydweithwyr a chanfod ffyrdd mwy arloesol o gynyddu eu camau dyddiol. Roedd 67 o dimau wedi cymryd rhan gyda 322 o gyfranogwyr, gan godi £2,914.50 mewn ffioedd cofrestru a nawdd i'r elusen.



# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## (a) Perfformiad busnes

Yn 2012/13 ein gweledigaeth oedd:
*Rhoi'r cwsmer, ansawdd ac arloesi wrth wraidd gwasanaethau cofrestru tir.*

Ein pwrpas oedd:
*Cynnal a datblygu system sefydlog ac effeithiol o gofrestru tir sy'n darparu sicrwydd â chefnogaeth y wladwriaeth o deitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir yng Nghymru a Lloegr er mwyn hwyluso creu'r ystadau a'r buddion hynny a'u symudiad rhydd, a darparu mynediad hwylus i wybodaeth gyfoes a gwarantedig am dir er mwyn gallu delio'n hyderus mewn eiddo a gwarantu teitl.*

Mae ein hamcanion strategol a'r perfformiad yn erbyn eu targedau cysylltiedig i'w gweld isod.

| | Dangosydd/amcan perfformiad allweddol | Perfformiad |
|---|---|---|
| | **Cwsmeriaid** | |
| | *Adnabod, rhagweld a bodloni anghenion cwsmeriaid drwy fireinio a datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli yn gyson* | |
| C1 | Bodlonrwydd cwsmeriaid: targed 96% | Cyflawnwyd 98% |
| C2 | Argaeledd e-sianel allanol ar gyfartaledd: targed 99.5% | Cyflawnwyd 99.7% |
| C3 | Sgôr Hyrwyddwr Net: targed 40 | Cyflawnwyd 55 |
| C4 | Lansio'r Gwasanaeth Cofrestru Dogfen electronig erbyn 31 Mawrth 2013 | Cyflawnwyd |
| | **Ansawdd** | |
| | *Gwella cyflenwi gweithredol yn barhaus er mwyn ysgogi effeithlonrwydd, ansawdd a gwerth* | |
| A1 | Cofrestriadau wedi'u cwblhau ac yn bodloni safonau ansawdd mewnol: targed 97% | Cyflawnwyd 98.4% |
| A2 | Canran y newidiadau e-wasanaeth llwyddiannus: targed 96.5% | Cyflawnwyd 98.1% |
| A3 | Cofrestriadau safonol wedi'u prosesu o fewn 12 diwrnod: targed 80% | Cyflawnwyd 84.2% |
| A4 | Data Tueddiadau'r Farchnad am ddim (diwrnod 1) wedi'i ryddhau i radd HMG lefel 4 erbyn 31 Mawrth 2013 | Cyflawnwyd |
| | **Pobl ac arloesi** | |
| | *Adnabod a gweithredu cyfleoedd ar gyfer datblygu ein pobl a busnes y Gofrestrfa Tir er lles ein cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid* | |
| Ar 1 | Gwella nifer y gweithwyr yr ymgysylltwyd yn gadarnhaol â nhw i 50% | Heb ei gyflawni 48% |
| Ar 2 | Lleihau allyriadau carbon gan 5% o'i gymharu â 2011/122 | Cyflawnwyd 15.2% |
| Ar 3 | Cyflwyno Perfformio ac Arloesi i un swyddfa erbyn 31 Mawrth 2013 | Cyflawnwyd |
| Ar 4 | Datblygu Strategaeth Fusnes newydd ar gyfer y Gweinidog erbyn 30 Medi 2012 | Cyflawnwyd |
| | **Cyllid** | |
| | *Bod yn hyblyg ac yn effeithlon ac ymateb i newidiadau yn y farchnad gan gyllido ein hanghenion buddsoddi yn y dyfodol* | |
| Cy 1 | Cynyddu refeniw Add Value gan 20% (£6 miliwn) gydag elw net o 14% | Heb ei gyflawni £4.4m (elw net 22%) |
| Cy 2 | Cost yr uned mewn termau arian parod: targed £28.41 | Cyflawnwyd £23.36 |
| Cy 3 | Lleihad mewn costau rhedeg wedi'u haddasu: targed 4% | Cyflawnwyd 6.6% |
| Cy 4 | Datblygu cynllun buddsoddi seilwaith gan ystyried y Strategaeth Fusnes, Grŵp Data Cyhoeddus a'r Bwrdd Strategaeth Data erbyn 31 Mawrth 2013 | Cyflawnwyd |

## Sylwadau

Cyrhaeddwyd 14 o'r 16 o dargedau heriol. Mae'r llwyddiant hwn wedi cael ei archwilio gan Archwilio Mewnol.

Enillwyd £4.4 miliwn mewn refeniw masnachol ond ni chyrhaeddwyd y targed o £6 miliwn. Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i'n ffocws cynyddol ar ryddhau data am ddim. Rhagorwyd ar y targed elw.

Ni chyrhaeddwyd ein targed i gael 50 y cant o ymgysylltu cadarnhaol â staff ond roedd ein sgôr o 48 y cant yn well na 45 y cant y llynedd. Rydym wedi ymrwymo i wella ymgysylltu â staff.

**Amrywiaeth**
Gwnaethpwyd cynnydd da yn erbyn ein dau amcan cydraddoldeb pedair blynedd.

**Amcan cydraddoldeb mewnol**
Er mwyn ysgogi diwylliant o gynhwysiant a pharch o fewn ein sefydliad a cheisio gwell ymgysylltu â staff sy'n rhannu nodweddion wedi'u diogelu.

**Amcan cydraddoldeb allanol**
Sicrhau bod ein staff yn gallu adnabod, rhagweld a bodloni anghenion amrywiol ein cwsmeriaid drwy gyflenwi cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli am bris y gall y ddau ohonom ei fforddio.

Rydym yn monitro ein cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn drwy asesu pa mor dda rydym yn clirio'r camau a fanylir drwy'r Pwyllgor Amrywiaeth.



# (b) Manylion y cyfarwyddwyr

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn un o oruchwylio yn bennaf. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn gyfrifol am strategaeth, llywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus.

Mae'n gosod strategaeth y Gofrestrfa Tir ac yn helpu'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn ei brif gyfrifoldeb fel y Swyddog Cyfrifyddu dros lywodraethu a pherfformiad y Gofrestrfa Tir.

Cymeradwywyd cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn haf 2012 a'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cwrdd bob mis neu pan a phryd y bydd angen a chyfarfu 10 gwaith yn ystod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd ad hoc ychwanegol i drafod strategaeth a materion penodol eraill. Mae'r Cadeirydd, y Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn cynnal cyfarfodydd cyfranddalwyr bob tri mis â'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

Cwblhawyd y broses recriwtio i'r ddau gyfarwyddwr anweithredol newydd i ymuno â Bwrdd y Gofrestrfa Tir yng Ngorffennaf 2012, gan ddarparu cydbwysedd eang o gyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol.

Mae aelodaeth o Fwrdd y Gofrestrfa Tir fel a ganlyn.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid (o 21 Chwefror 2013) |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Kirsty Pearce | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Tachwedd 2012) |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |
| Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 31 Mawrth 2013) |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid (tan 19 Mawrth 2013) |
| Jan Crosby | Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 31 Hydref 2012) |



**Tim Franklin**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**John Peaden**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau





**Alasdair Lewis**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir



**Jon Cocking**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflenwi Cynllun Rheoli Blynyddol y Gofrestrfa Tir ac am reoli gweithrediad y busnes o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis a chyfarfu 11 gwaith yn ystod y flwyddyn.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Ed Lester (Cadeirydd) | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid (o 21 Chwefror 2013) |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro (o 1 Hydref 2012) |
| Eddie Davies[1] | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid (o 1 Ionawr 2013) |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro (o 25 Chwefror 2013) |
| Annette Davies-Govett | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid (tan 19 Mawrth 2013) |
| David Evans | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro (tan 15 Mawrth 2013) |
| John Wright | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth (tan 30 Medi 2012) |

1 Mae Eddie Davies wedi bod yn darparu gwasanaeth dros dro yn absenoldeb Annette Davies-Govett.

# Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r pwyllgor yn cefnogi Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheolaeth, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, safonau allanol a gofynion statudol.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Tim Franklin (Cadeirydd) [1] | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 19 Mawrth 2013) |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol (o 19 Mawrth 2013) |
| David Cleasby[2] | Pennaeth y Grŵp Gweithrediadau Canolog a Rheolwr Ardal (tan 10 Mehefin 2013) |
| Catherine Raines[3] | Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 31 Mawrth 2013) |
| Vaughan Williams | Aelod anweithredol (tan 31 Rhagfyr 2012) |
| John Wright[2] | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth (tan 30 Medi 2012) |
| **Mynychwyr** | |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid (o 21 Chwefror 2013) |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Cynrychiolydd | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid (tan 19 Mawrth 2013) |

1 Roedd Tim Franklin yn Gyfarwyddwr Anweithredol o 8 Gorffennaf 2012.
2 Wedi mynychu'r Pwyllgor Archwilio fel aelodau, nid yn eu rhinweddau gweithredol.
3 Roedd Catherine Raines yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio tan Fawrth 2013.





**Kirsty Pearce**
Cyfarwyddwr Anweithredol

# Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y strategaeth dâl ac yn awdurdodi'r adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff Uwch Wasanaeth Sifil y Gofrestrfa Tir ac yn cytuno ar strategaeth ar gyfer dilyniant i fyrddau'r Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.



| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 8 Gorffennaf 2012) |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (o 13 Mai 2013) |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) |



**Catrina Holme**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**Rowland Coombs**
Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro



**Eddie Davies**
Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro



**Annette Davies-Govett**
Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid

# (c) Adroddiad cynaliadwyedd

Mae adroddiadau cynaliadwyedd yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn dangos ein perfformiad yn erbyn targedau'r Llywodraeth ac yn erbyn ein gofynion Systemau Rheoli Amgylcheddol ein hunain. Mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy'r adroddiad hwn, drwy ePIMS (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo electronig), ac fel rhan o'r adroddiadau cynaliadwyedd cyffredinol i'r Llywodraeth, drwy'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ac fel y bo'n ofynnol gan *Greening Government Commitments* (GGC).

## Crynodeb o berfformiad

Rydym wedi parhau i weithio tuag at gyflawni targedau GGC erbyn Mawrth 2015. Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni gwelliant o 21 y cant mewn lleihau carbon, gwelliant o 28 y cant mewn gwastraff a gwelliant o 45 y cant mewn defnyddio dŵr o'i gymharu â'r cyfnod adrodd gwaelodlin GGC, sef 2009/10.

Eleni cyflwynwyd ein dangosydd perfformiad allweddol (DPA) cyntaf sy'n uniongyrchol gysylltiedig â pherfformiad cynaliadwyedd - lleihau allyriadau carbon gan 5 y cant. Mae'r wybodaeth berfformiad ar gyfer carbon isod wedi'i nodi fel y bo'n ofynnol gan y GGC. Mae'r perfformiad DPA yn dileu'r ynni a ddefnyddir gan ein partneriaid gwasanaethau cyffredin o fewn ein hadeiladau canolfan ddata oherwydd nid oes unrhyw reolaeth gennym drosto. Pan gaiff hyn ei ddileu o ofynion adrodd GGC mae ein gwelliant DPA ar ddiwedd y flwyddyn yn 15.2 y cant.

| Maes | | Perfformiad | |
|---|---|---|---|
| | | Gwirioneddol | Targed lleihad 25% 2015 |
| **Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, ym mhob maes** | Allyriadau carbon (tunelli) | 11,340 | 10,745[1] |
| | Gwariant (£'000) | 2,043 | |
| **Gwastraff** | Defnydd (tunelli) | 1,421 | 1,484[1] |
| | Gwariant (£'000) | 415 | |
| **Dŵr** | Defnydd ($m^3$) | 31,230 | 42,911 |
| | Gwariant (£'000) | 236 | |

1 Ailosodwyd y targed yn unol â gwaelodlin GGC.

Mae adroddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn unol â gofynion GGC.

| Dŵr | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | |
| **Defnydd** | | |
| Wedi'i gyflenwi | 31,230 | 38,451 |
| Wedi'i dynnu | – | – |
| **Cyfanswm defnydd** | **31,230** | **38,451** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwi** | **236** | **374** |

Nodyn: Mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol)** | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer meysydd 1 a 2 | 10,447 | 11,211 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 2,265 | 2,754 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer meysydd 1 a 2 (h.y. wedi dileu elfennau adnewyddadwy) | 8,182 | 8,457 |
| Allyriadau gros maes 3 teithio[1] | 893 | 814 |
| **Cyfanswm gros allyriadau a gofnodwyd** | **11,340** | **12,025** |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | |
| Trydan: wedi'i brynu (grid, gwres a phŵer cyfunedig ac anadnewyddadwy) | 15,943 | 16,433 |
| Trydan: adnewyddadwy | – | – |
| Nwy | 11,567 | 12,521 |
| Ffynonellau ynni eraill | – | – |
| **Cyfanswm ynni** | **27,510** | **28,954** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | |
| Gwariant ar ynni | 2,043 | 2,227 |
| Gwariant ar gredydau achrededig (e.e. Cronfa Credydau Carbon y Llywodraeth) | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,127 | 1,216 |

1 Mae allyriadau gros maes 3 yn cynnwys pob math o deithio busnes sydd ar gael.

Nodyn: Mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

| Gwastraff | | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | 1 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff tirlenwi | 379 | 614 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 1,042 | 1,074 |
| | Ynni o wastraff | – | – |
| | **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **1,421** | **1,689** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | – |
| Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff tirlenwi | 197 | 152 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 218 | 265 |
| | Ynni o wastraff | – | – |
| | **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **415[1]** | **417[1]** |

1 Nid oedd dadansoddiad o'r gost ar gael.

Nodyn: Mae ein data defnydd yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

## Crynodeb o strategaeth y dyfodol

Rydym yn parhau i weithio tuag at gyflawni targedau'r GGC, gan gydweithio'n agos â'n prif bartneriaid busnes i sicrhau gwelliannau mewn gweithredu a rheoli adeiladu a'n seilwaith TG. Rydym yn adolygu ein harolygon cyflwr adeiladau er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw yn y dyfodol, yn enwedig y rhai sydd ag effaith gynaliadwyedd. Rydym wedi comisiynu adroddiadau i'n cynghori ar y dewisiadau gorau ar gyfer cyflwyno technolegau cynaliadwy a chasglu ac ailddosbarthu dŵr glaw.

## Addasu i newid hinsawdd

Caiff ein Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2013 yn dilyn yr adroddiadau ychwanegol sy'n cael eu comisiynu yn unol â'r argymhellion yn yr arolygon cyflwr adeiladau a gwblhawyd yn 2012.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Anogwn welliannau mewn bioamrywiaeth drwy ein contract cynnal a chadw tir â Floratec a gyflenwir drwy ein darparwr rheoli cyfleusterau Carillion. Mae ein tir yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth well. Mae cynllun gwella bioamrywiaeth yn cael ei lunio ar hyn o bryd mewn cydweithrediad â rheolwr bioamrywiaeth Floratec.

## Caffael cynaliadwy yn erbyn GGC

Mae ymdrech parhaus gan y Tîm Caffael Corfforaethol, gan gydweithio â'u budd-ddeiliaid busnes a phrif gyflenwyr, wedi golygu bod y tîm wedi ennill Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy. Roedd y llwyddiant hwn yn un o ddangosyddion perfformiad allweddol Caffael Corfforaethol ar gyfer 2012/13.

Rydym wedi parhau i gydweithio â'n prif gyflenwyr ar faterion cynaliadwyedd. Roedd hyn yn cynnwys ffurfio partneriaeth ag un cyflenwr yn ei waith gwirfoddol gydag elusen leol, tirlunio ac addurno cyfleuster newydd sy'n cael ei ddefnyddio i integreiddio pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd yn gymdeithasol i'r gymuned ehangach. Rydym hefyd wedi diweddaru ein polisi a gweithdrefnau, gyda'r nod o gynyddu cyfran ein gwariant gyda mentrau bach a chanolig yn unol ag amcanion Swyddfa'r Cabinet.

## System Rheoli Amgylcheddol

Mae ein System Rheoli Amgylcheddol achrededig wedi bod yn ei lle ers Ionawr 2001. Mae'r system yn cwmpasu'r ystad swyddfa a'r ystad arall. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae'r system wedi cael ei harchwilio'n llwyddiannus yn fewnol ac yn allanol. Cynhaliwyd archwiliad ail-ardystio allanol yn Ionawr 2013 a llwyddwyd i ddangos ein heffeithiolrwydd o ran rheoli ein perfformiad cynaliadwyedd a gwelliannau a derbyniwyd ardystiad ar gyfer tair blynedd arall.

Adroddiad cynaliadwyedd (parhad)

## Llywodraethu

Mae ein perfformiad yn cael ei archwilio'n fewnol ac yn allanol. Mae gwybodaeth am y defnydd o drydan a nwy yn cael ei chymryd yn uniongyrchol o'r anfonebau gan gyflenwyr. Mae pob mesurydd gwasanaethau yn cael ei ddarllen bob mis gan y contractwr rheoli cyfleusterau ac mae'r wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Rheolwr Cynaliadwyedd. Mae'r defnydd o ddŵr yn cael ei gymryd o'r wybodaeth hon a defnyddir darlleniadau eraill i wirio dilysrwydd anfonebau yn achlysurol. Mae'r data yn cael ei gasglu a'i gofnodi yn unol â gofynion y GGC a'i roi ar ePIMS bob mis yn ôl yr angen.

Rheolwn gydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol drwy ein Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd. Fe'i rheolir drwy'r Rheolwr Cynaliadwyedd gan ein huwch bartneriaid busnes cyfleusterau a Carillion.

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2013

# Gwybodaeth gryno

## Pobl


| | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) ar 31 Mawrth | 4,579 | 4,724 |
| Cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth | 4,060 | 4,222 |
| Diwrnodau salwch fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 7.1 | 7.4 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 4.2 | 4.4 |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 3.1% | 3.8% |
| Gweithwyr benyw | 62% | 60% |
| Gweithwyr rhan-amser | 38% | 36% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 4% | 4% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 6.5% | 6% |

### Adnoddau

Mae ein trefniadau recriwtio yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac maent yn cael eu monitro'n fewnol. Cafodd chwe aelod o staff mewn meysydd arbenigol eu recriwtio o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil a throsglwyddodd pedwar aelod o staff yn barhaol i'r Gofrestrfa Tir o adrannau eraill o'r llywodraeth.

Mae ein buddsoddiad mewn digideiddio yn golygu bod y Gofrestrfa Tir yn troi'n sefydliad llai a mwy effeithlon. Yn dilyn lleihad sylweddol yn y gweithlu ac ailstrwythuro o 2010 i 2012 cwblhawyd y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig yn ystod y flwyddyn drwy redeg nifer o gynlluniau gwirfoddol llai, gan gynnwys cau ein his-swyddfa yn Portsmouth. Yn ogystal trosglwyddwyd ein gwasanaethau arolwg i'r Arolwg Ordnans gyda 26 o'n syrfewyr yn ymuno â'r Arolwg Ordnans.

**Cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn y flwyddyn**



## Iechyd a lles

Mae iechyd a lles ein staff yn hollbwysig i'r Gofrestrfa Tir. Datblygwyd ein strategaeth iechyd, lles a phresenoldeb drwy ymgynghori'n agos â'r undebau. Tynnwyd sylw at y prif faterion o fewn y sefydliad gan ddwyn ynghyd yr holl weithgareddau a mentrau cysylltiedig i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Nodau strategaeth 2012/13 oedd:

- deall yn well cyflwr presennol y sefydliad o ran straen, iechyd a lles a gweithredu i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi
- cryfhau ymyrryd drwy ddiwylliant rheoli ac arweinyddiaeth
- datblygu ymhellach gallu rheolwyr llinell i ymateb i faterion iechyd a lles, gan gynnwys rheoli presenoldeb a gwydnwch, a rhoi cymorth a chyngor priodol iddynt
- adnabod a hyrwyddo cyfleoedd pellach i staff allu gwella eu hiechyd a'u lles eu hunain yn y gweithle, gan ganolbwyntio ar gynnal amgylchedd gwaith iach.

Mae gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y mentrau wedi helpu i adnabod camau pellach i'w corffori mewn strategaeth newydd ar gyfer 2013/14.

Yn y cyfamser mae lles staff yn cael ei hyrwyddo drwy gyfuniad o'r gweithgareddau allweddol canlynol.

- Sesiynau 'gwybod eich rhifau' sy'n cynnig cyfle i staff fonitro pwysau gwaed, mynegai màs y corff a cholesterol.
- Ymgyrchoedd hybu iechyd a chyhoeddi gwybodaeth fwy cynhwysfawr drwy'r tudalennau iechyd a lles ar y fewnrwyd.
- Polisïau megis oriau hyblyg ac absenoldeb arbennig.
- Cynnig gwasanaeth Cymorth i Weithwyr a Rheolwyr i helpu staff i ddelio â phroblemau.
- Cynnig cyfleusterau ymarfer corff, dosbarthiadau neu therapïau amgen mewn rhai lleoliadau.
- Darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol.
- Cyflwyno polisi rheoli straen.



## Amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol, gan ganolbwyntio ar y camau a fydd yn ysgogi newid diwylliant cynaliadwy yn y tymor hwy. Ein nod yw creu diwylliant lle y gall ein gweithwyr deimlo eu bod yn gallu cyrraedd eu potensial llawn.

Yn Ebrill 2012 cyflwynwyd ein hamcanion cydraddoldeb strategol uchelgeisiol a heriol (gweler tudalen 24). Mae cynnydd ar y ddau amcan ar darged ar hyn o bryd.

Roedd ein hymgyrch Respect, a lansiwyd yn Ionawr 2012, yn ymgyrch treigl 12 mis oedd yn ceisio corffori ein gwerth Respect a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwerth ei hun a'i berthynas â newid diwylliannol ac amrywiaeth. Mae hyn wedi'i gysylltu'n glir â'n dangosydd perfformiad allweddol Pobl ac Arloesi, ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'n Strategaeth Amrywiaeth sy'n amlinellu ein nodau mewn perthynas â newid ymddygiad a diwylliant.

Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth ac amlygrwydd y problemau sy'n wyneb grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithle, ynghyd â datblygu sgiliau ein rheolwyr er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddelio â materion cysylltiedig ag amrywiaeth.

Ochr yn ochr â'r ymgyrch Respect cyflwynwyd pecyn e-ddysgu gorfodol Civil Service Learning, sef *Cyflwyniad i gydraddoldeb ac amrywiaeth*. Roedd y cwrs yn rhoi trosolwg o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, ynghyd â gweithgareddau ymarferol oedd yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant a gwella gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae ein prosiect datganiad wedi gweld cynnydd yng nghyfraddau datganiad ar draws pob grŵp, gyda 43 y cant o'n gweithwyr yn datgan eu cyfeiriadedd rhywiol, 43 y cant yn datgan eu crefydd, 99 y cant yn datgan eu statws anabledd a 95 y cant yn datgan eu hethnigrwydd. Mae deall demograffeg ein gweithwyr yn agwedd bwysig arall ar ein gwaith amrywiaeth, gan sicrhau ein bod yn symud unrhyw rwystrau i gynhwysiant.

Rydym yn parhau i ddadansoddi data ar draws holl weithgareddau Adnoddau Dynol a chyhoeddwyd ein hail Adroddiad Gwybodaeth Cydraddoldeb ym mis Medi. Mae'r gwaith hwn hefyd yn helpu i hyrwyddo ein rhaglenni gweithredu cadarnhaol, gan gynnwys ein gweithdai *Pathways* i weithwyr lleiafrifoedd ethnig, anabl a lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol o dan radd RE1.

Mae gwella ymgysylltu â staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn parhau i fod yn amcan allweddol. Rydym wedi dadansoddi ymatebion i Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil a chynnal ymchwil mwy manwl gyda gweithwyr a ddywedodd eu bod yn lleiafrif ethnig neu'n anabl, ynghyd â'r gweithwyr hynny sydd â phatrymau gweithio gwahanol. Bydd y materion a nodwyd yn y gwaith yn ffurfio rhan o'n cynllun gweithredu penodol blwyddyn dau o dan ein hamcan cydraddoldeb mewnol.

Mae ein hyrwyddwyr amrywiaeth lleol wedi parhau i gyflwyno gweithgareddau cysylltiedig ag amrywiaeth ar draws y busnes a bydd gwaith yn y dyfodol yn cysylltu â'n hymgyrchoedd iechyd a lles a gwaith ymgysylltu lleol.

I gefnogi ein hamcan cydraddoldeb allanol rydym wedi adolygu ein prosesau mewnol a'r wybodaeth a roddir i helpu ein staff i ddarparu gwasanaeth teg a chyson i bob un o'n cwsmeriaid. Mae'r rhwydweithiau cymorth mewnol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi chwarae rôl weithredol yn yr adolygiad ac wrth ddiweddaru ein gwybodaeth a helpu i lunio hyfforddiant ar gyfer ein staff cymorth cwsmeriaid. Maent wedi ymchwilio i brofiad cwsmeriaid o ddefnyddio ein gwasanaethau.

# Iechyd a diogelwch

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â Carillion sydd erbyn hyn yn darparu gwasanaethau rheoli iechyd a diogelwch ar ein cyfer fel rhan o'r contract Rheoli Cyfleusterau ehangach. Mae'r prosiect i adolygu a diwygio pob un o'n polisïau a chanllawiau iechyd a diogelwch y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad blynyddol y llynedd wedi cael ei gwblhau. Cawsom gyfle i ailedrych ar sut rydym yn rheoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd, yn enwedig yn sgil ein partneriaeth â Carillion.

Yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r newidiadau cwblhawyd cyfres o seminarau gyda rheolwyr ym mhob un o'n swyddfeydd i esbonio'r newidiadau a thynnu sylw at rôl hanfodol y rheolwr llinell, i'w ddilyn yn 2013/14 gyda hyfforddiant pellach i reolwyr llinell.

Rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n ein hwynebu o ran y Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007. Y risg fwyaf a nodwyd yw gyrru tra ar ddyletswydd. Fel rhan o'r gwaith a wnaed i leihau'r risg hon rydym wedi adolygu'r polisi gyrru, canllawiau gyrwyr a'r asesiad risg generig ar gyfer dyletswyddau gyrru. Rydym hefyd wedi cyflwyno prosesau i wirio trwyddedau gyrru, asesu lefelau personol unigolion o risg gyrru a darparu hyfforddiant ychwanegol.

Cymerwn ein cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch o ddifrif gyda phwyllgor penodol yn adrodd i'r Pwyllgor Pobl. Cynhelir ymchwiliadau a buddsoddwn mewn gwelliannau.

Cyfanswm y damweiniau a gofnodwyd yn y gwaith oedd 212 a 'llithro, baglu a chwympo' yw'r categori unigol mwyaf o hyd. Cafodd naw damwain eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus, i lawr o 10 yn 2011/12.

# Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Cafodd un digwyddiad cysylltiedig â data personol ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae digwyddiadau sydd, ym marn y rheolwr data, heb eu cynnwys o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog o fewn yr adran, i'w gweld yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bach, lleol yn cael eu cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu nodi yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y llywodraeth | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i adeiladau diogel y llywodraeth | 4 |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol mewn modd anniogel | — |
| IV | Datgeliadau heb eu hawdurdodi | 1 |
| V | Arall | 2 |
| **Cyfanswm** | | **8** |

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn annog staff i gyfrannu drwy amryw o weithdrefnau gan gynnwys ymateb ar-lein i gyfathrebiadau, y cynllun myIdea a chynllun arloesi. Yn ogystal cynhelir arolygon staff bob dau fis i werthuso ymgysylltu â staff. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer uwch aelodau o staff i'w hannog i gymryd rhan a datblygu ein targedau perfformiad ar gyfer 2013/14.

Ymgysylltwn yn rheolaidd â'r undebau staff er mwyn cynnal cysylltiadau adeiladol ac ymgynghorol. Mae'r mewnbwn a'r ymgynghori hwn yn helpu'r Gofrestrfa Tir i weithredu polisïau newydd ac mae'n annog staff i gyfrannu. Drwy ddefnyddio Perfformio ac Arloesi mae cyfleoedd gan ein pobl i ymgysylltu â materion perfformiad a syniadau ar gyfer gwella.

Mae gwella ymgysylltu â staff yn hollbwysig i lwyddiant y Gofrestrfa Tir a'n Strategaeth Busnes ac i gynnal sefydliad bywiog ac iach. Mae ymgysylltu â staff yn cael ei feithrin drwy bwyllgorau lleol a'i arwain gan hyrwyddwyr lleol, gan gynnwys hyrwyddwyr strategaeth cwsmeriaid, hyrwyddwyr cynaliadwyedd a hyrwyddwyr amrywiaeth.

## Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Mae'r Gofrestrfa Tir yn Ddeiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ac yn aelod o'r Grŵp Data Cyhoeddus. Rydym wedi cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ar ffioedd a thaliadau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI), sy'n rhan o'r Archifau Cenedlaethol. Fel gwerthwr sector cyhoeddus o wybodaeth mae achrediad llawn gennym drwy Gynllun Masnachwr Teg Gwybodaeth OPSI.

## Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Ddeddf Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai o Enwau Perchnogion (IOPN). Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Y flwyddyn hon cyfanswm y ceisiadau a gafodd eu trin gan yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol oedd 1,344,111, sef gostyngiad o 9.6 y cant o'i gymharu â'r cyfanswm ar gyfer 2011/12.

Cyfanswm y chwiliadau Pridiannau Tir a broseswyd oedd 1,218,239, sef gostyngiad o 8.3 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd cyfran y ceisiadau am chwiliad a chopi swyddfa a wnaed dros y ffôn, mynediad uniongyrchol a'r ffacs wedi cynyddu i 83.5 y cant o'r cyfanswm a dderbyniwyd y flwyddyn hon, o'i gymharu â 82 y cant o'r cyfanswm yn 2011/12; cyflwynwyd 95.4 y cant o geisiadau am gopi swyddfa fel hyn. Erbyn hyn mae cyfanswm o 86.4 y cant o chwiliadau Pridiannau Tir yn cael eu prosesu drwy sianeli e-fynediad. Syrthiodd canran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau i 3.5 y cant o'i gymharu â 6.3 y cant y flwyddyn flaenorol. Cafodd y cyfleuster chwilio dros y ffôn ei dynnu'n ôl o 17 Rhagfyr 2012.

## Yr Adran Pridiannau Tir

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2012/13 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2011/12 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 79,931 | – 22.1% |
| Dileadau | 12,965 | – 8.4% |
| Chwiliadau swyddogol: | | |
| – Chwiliadau llawn | 177,134 | – 13.6% |
| – Chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,041,105 | – 7.3% |
| **Cyfanswm chwiliadau swyddogol** | **1,218,239** | **– 8.3%** |
| Copïau swyddfa | 27,639 | – 24.6% |
| **Cyfanswm** | **1,338,774** | **– 9.6%** |

## Yr Adran Credydau Amaethyddol

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 | 6,344 |
| 2008/9 | 1,159 | 917 | 4,120 | 6,196 |
| 2009/10 | 917 | 737 | 3,405 | 5,059 |
| 2010/11 | 737 | 1,153 | 2,688 | 4,578 |
| 2011/12 | 840 | 1,086 | 2,689 | 4,615 |
| 2012/13 | 645 | 1,006 | 3,686 | 5,337 |

# Deddfwriaeth

## Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2012

O dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002, gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn bennu'r ffioedd sydd i'w talu am ddeliadau â'r Gofrestrfa Tir a gwneud darpariaeth am dalu'r ffioedd hyn. Mae gorchymyn ffi yn cael ei wneud gyda chyngor a chymorth y Pwyllgor Rheolau a chyda chaniatâd Trysorlys EM.

Daeth Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2012 i rym yn Hydref 2012, gan leihau ein ffioedd gan 10 y cant ar gyfartaledd.

## Rheolau Pridiannau Tir (Newidiad) 2012
## Rheolau Ffioedd Pridiannau Tir (Newidiad) 2012

Cafodd Rheolau Pridiannau Tir 1974 a Rheolau Ffioedd Pridiannau Tir 1990 eu gwneud o dan Ddeddf Pridiannau Tir 1972 ac maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu system gofrestru Pridiannau Tir. Daeth Rheolau Pridiannau Tir (Newidiad) 2012 a Rheolau Ffioedd Pridiannau Tir (Newidiad) 2012 i rym ar 17 Rhagfyr 2012. Mae'r cyntaf yn diwygio rheolau 1974 i ganiatáu cau gwasanaeth archebu dros y ffôn Pridiannau Tir a chaniatáu ar gyfer defnyddio technoleg newydd (digidol yn arbennig) ar gyfer cyflwyno ceisiadau Pridiannau Tir. Mae'r ail yn gwneud newidiadau dilynol i Reolau 1990.

# Y Pwyllgor Rheolau

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol ond ers trosglwyddo cyfrifoldeb gweinidogol dros y Gofrestrfa Tir i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffioedd o dan y Ddeddf.

Yn Ebrill 2012, rhoddodd y pwyllgor gyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr hyn a ddaeth yn Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2012.

# Gwybodaeth agored a llawn

Yn 2012/13 datblygwyd ein setiau data Pris a Dalwyd a Thrafodiad a gyhoeddwyd eisoes yn adnoddau ar gyfer data cysylltiedig yn landregistry.data.gov.uk. Mae hyn, ynghyd â'n hymrwymiad parhaus i gyfarwyddeb INSPIRE ar gyfer ein gwybodaeth ddaearyddol, yn golygu ein bod yn arwain ar agenda cyhoeddi data'r Llywodraeth. Rydym hefyd wedi ehangu ein Warws Data Menter sydd erbyn hyn yn cynnwys setiau data cofrestr craidd. Yn olaf, mae cwblhau ein rhestr set data yn ein paratoi ar gyfer cael ein cynnwys yn Set Data Cyfeirio Craidd Cenedlaethol ehangach y llywodraeth.

Mae diogelwch a hygyrchedd ein gwybodaeth gorfforaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth gryf. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol i ailbennu rolau Perchennog Ased Gwybodaeth i uwch reolwyr o dan lefel cyfarwyddwr, gan danlinellu'r ffaith bod cyfarwyddwyr yn parhau i fod yn atebol am risgiau gwybodaeth yn eu meysydd busnes. Mae digwyddiadau hyfforddi wedi'u targedu ar gyfer Perchnogion Ased Gwybodaeth a'u stiwardiaid data wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae cylch blynyddol o adolygiadau risg a chadarnhau dogfennau ased wedi bod yn brif ffactor yn ein haeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth parhaus.

Rydym wedi dechrau mynd i'r afael â rheoli gwybodaeth o fewn y sefydliad, gan edrych ar lwyfannau presennol megis ein mewnrwyd a ffolderi cyffredin a dulliau newydd o gydweithredu a rhannu gwybodaeth gorfforaethol. Mae'r ymarfer ffolderi cyffredin wedi gweld swyddfeydd lleol yn symud i strwythur ffolder safonol, 'mwy gwastad' a mwy agored tuag at hybu rhannu gwybodaeth. Mae gweithredu SharePoint 2010 yn cynnig nifer o gyfleoedd i greu dulliau gwell o reoli storio dogfennau, yn ogystal â chydweithredu rhwng timau ar y safle a gwella offer chwilio staff i helpu i wneud y mwyaf o'n pobl. Yn y pen draw rydym am gynnal llifoedd gwaith gwell a dangosfyrddau deallusrwydd busnes byw.

Derbyniwyd 320 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac atebwyd i 316 ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

## Gwasanaeth Cymraeg

Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: www.landregistry.gov.uk/public/about-us/policy-statements/welsh-language-scheme

## Cwynion

Cafwyd 1,902 o gwynion yn 2012/13 (o'i gymharu â 2,193 yn 2011/12), ac o'r rhain ymatebwyd i 93 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod (92 y cant yn 2011/12). Y materion mwyaf cyffredin a arweiniodd at gwynion oedd ein cyngor, camgymeriadau gweinyddol, gwallau yn arwain at benderfyniadau cofrestru ac oedi. Rydym yn gofalu ein bod yn dadansoddi cwynion gan nodi patrymau a thueddiadau er mwyn dysgu sut i wella ein hymarfer. Roedd yr adborth mwyaf cyffredin am e-wasanaethau yn ymwneud â dyluniad a defnyddioldeb systemau.

Mae enghreifftiau o feysydd lle y gwnaethpwyd newidiadau mewn ymateb i adborth yn cynnwys:

- ein polisi canslo a gwrthod diwygiedig a oedd yn un o'r categorïau mwyaf o gwynion yn 2011/12
- y deunydd gwybodaeth a chymorth a roddir i staff ar y rheng flaen. Cafodd y deunydd ei wella o ganlyniad i waith Tîm Gwerthuso ac Astudio yr Adolygydd Cwynion Annibynnol (ICREST) i fireinio adborth a dysgu o'r ffordd rydym yn trin cwynion.

Roedd Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd wedi cysylltu â'r Gofrestrfa Tir dair gwaith ond ni luniwyd adroddiadau llawn.

Esbonnir ein trefn gwyno ar ein gwefan ar: www.landregistry.gov.uk/contact-us/complaints.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cymryd rhan yn y fforwm cwyno trawslywodraethol a meincnodi ein prosesau yn erbyn arfer gorau.

## Y Gronfa Indemniad

Yn 2012/13 talwyd £11.9m yn erbyn 1,019 o hawliadau, o'i gymharu â £9.3m ar gyfer 935 o hawliadau yn 2011/12. Y cais mwyaf a dalwyd oedd £5.1m ar gyfer cofnod baich hawddfraint oedd ar goll. Dyma'r flwyddyn gyntaf ers 2004/5 lle nad twyll oedd yr achos mwyaf o golled. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r hawliad hawddfraint mawr, er bod taliadau twyll i lawr bron 30 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gwerth mwyaf gwreiddiol yr hawliadau safonol a dderbyniwyd oedd £17.9m ond cafodd y rhain eu talu am £10.5m, gan arbed £7.4m. Yn ystod y flwyddyn cafodd 220 o hawliadau eraill gwerth £11.8m eu talu am ddim gwerth yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002. O'r rhain roedd 28 ohonynt ar gyfer twyll ac yn werth £6.4m. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 1,171 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £16.3m, gan gynnwys 67 o hawliadau twyll sy'n werth £7.5m.

Cafodd hawliadau indemniad eu trin yn ôl eu teilyngdod a chânt eu talu yn unol â darpariaethau Deddf Cofrestru Tir 2002. Os yw hawlwyr yn anfodlon ag ymateb y Gofrestrfa Tir, mae hawl statudol ganddynt i fynd i'r llys i geisio gorchymyn am indemniad.

Adenillwyd £1.2m o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £0.5m y llynedd. Dyma'r swm blynyddol mwyaf i ni adennill erioed.

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 203 | 385,680 | 358,002 | 6.2 |
| Gwallau / hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 121 | 5,464,873 | 217,209 | 47.8 |
| Gwallau mewn cynlluniau amrywiol | 22 | 19,204 | 29,041 | 0.4 |
| Twyll a ffugio | 43 | 4,385,441 | 716,475 | 42.9 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 8 | – | 8,385 | 0.1 |
| Gwallau methdaliad | 1 | – | 720 | – |
| Chwiliadau swyddogol | 10 | 22,600 | 8,057 | 0.2 |
| Copïau swyddogol | 6 | 105 | 1,844 | – |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai (SIMs) | 12 | 46,226 | 11,814 | 0.5 |
| Gwallau mewn darnau wedi'u ffeilio | 122 | 95,150 | 19,025 | 1.0 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 469 | 31,780 | 73,721 | 0.9 |
| Gwallau Pridiannau Tir | 2 | 444 | – | – |
| **Cyfanswm** | **1,019** | **10,451,503** | **1,444,293** | **100.0** |
| **Taliad gros** | | | **£11,895,796** | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan ein hawliau digolledu statudol | | | £1,204,208 | |
| **Indemniad net** | | | **£10,691,588** | |

Yn ogystal, yn yr adroddiad hwn am y tro cyntaf adlewyrchwyd darpariaeth o £45.7m ar 31 Mawrth 2013 ar gyfer hawliadau indemniad sydd wedi codi ond heb eu cofnodi eto (IBNR) sydd, ar ôl adlewyrchu lleihad o £0.2m o 1 Ebrill 2012, wedi cael eu dosbarthu fel darpariaeth mantolen. Mae'r ddarpariaeth hon, a esbonnir yn nodyn 1.16 ar y cyfrifon, yn amcangyfrif sy'n debygol o symud i fyny ac i lawr yn y blynyddoedd dilynol.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol a Connect Direct

Mae incwm ffioedd o'r gwasanaethau chwilio electronig Connect Direct a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (NLIS) yn parhau i leihau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd incwm o NLIS wedi gostwng 31 y cant i £1,454,760 ac o Connect Direct gan 53 y cant i £575,914.

Yn unol â'n Strategaeth Ddigidol ac i leihau costau, buom yn gweithio gyda chwsmeriaid o'r ddau wasanaeth er mwyn eu mudo i'n gwasanaeth Business Gateway.

Ar gyfer ail hanner y flwyddyn mae cwsmeriaid Connect Direct wedi bod yn defnyddio Business Gateway ochr yn ochr â Connect Direct. Bydd mudo llawn a chau Connect Direct yn cael eu cwblhau yn gynnar yn 2013/14. Disgwylir i fudo NLIS i Business Gateway gael ei gwblhau hefyd erbyn diwedd 2013.

Disgwyliwn arbed mwy na £400,000 y flwyddyn pan fydd y gwaith o fudo'r ddau wasanaeth wedi'i gwblhau'n llwyr.

# Yr Uned Ryngwladol


Rheolwr yr Uned Ryngwladol Sue Knowles yn ymweld â Rwanda ym Mawrth 2013

Mae ein Huned Ryngwladol yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'n rhwydwaith o fudd-ddeiliaid dramor a'n bod wedi ein cynrychioli ar fforymau rhyngwladol perthnasol, gan gyfrannu lle y bo'n briodol at nodau strategol ehangach y Llywodraeth. Darparwn arbenigedd y DU i wledydd sy'n datblygu ac yn newid ac rydym hefyd yn dysgu o rannu arferion gorau o fewn y gymuned ryngwladol. At hynny mae ein gweithgareddau rhyngwladol yn rhoi cyfle unigryw i wella gallu, gwydnwch a hyblygrwydd ein gweithlu.

Rydym wedi cynnal ein cysylltiadau cryf â'n cymheiriaid dramor ac rydym wedi cymryd rhan weithredol yng Ngweithgor am Weinyddu Tir (WPLA) Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE).

Ym mis Hydref, ac i gyd-fynd â dathlu 150 o flynyddoedd o gofrestru tir yng Nghymru a Lloegr, cynhaliwyd cynhadledd WPLA yn Llundain. Thema'r gynhadledd oedd sut y gallai awdurdodau cofrestru tir helpu i wella marchnad eiddo'r byd a'r economi ehangach. Roedd cynrychiolwyr o 34 o wledydd ar draws rhanbarth UNECE yn cynnwys academyddion, syrfewyr siartredig, ymgynghorwyr, economegwyr, syrfewyr geodesy a mapio, swyddogion y llywodraeth, arbenigwyr gweinyddu tir, rhoddwyr benthyg, asiantau ystadau, cyfreithwyr, notarïaid a chofrestryddion.

Mae Pennaeth Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid Byd-eang, Julie Barry, yn parhau i'n cynrychioli ar Fiwro WPLA.

Rydym hefyd wedi parhau i fod yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop (ELRA), gan ystyried materion o bryder rhyngwladol, yn enwedig cyfarwyddebau posibl o'r UE a allai gael effaith ar ein gwaith. Mae'r Cofrestrydd Tir Cynorthwyol Chris Pitt-Lewis wedi parhau â'i rôl fel aelod Bwrdd ELRA. Rydym wedi cynnal cynrychiolaeth ffurfiol o'r DU ar y Pwyllgor Parhaol ar Stentiau yn yr Undeb Ewropeaidd ac rydym yn parhau i gael ein cynrychioli ar Fwrdd y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd.

Yn ystod y flwyddyn croesawyd nifer fawr o ymwelwyr o dramor, gan gynnig rhaglenni astudio pwrpasol i ddarparu ar gyfer eu meysydd arbennig o ddiddordeb, megis gwasanaeth cwsmeriaid, prosesau cofrestru a rheoli perfformiad. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni rannu gwybodaeth ac arbenigedd a meithrin cysylltiadau â chydweithwyr dramor sy'n gweithio yn yr un maes.

Eleni croesawyd ymweliadau astudio gan ein cymheiriaid a sefydliadau eraill ym Mwlgaria, Malaysia, Nigeria, Norwy, Rwanda a St Helena.



# Ystad

Roedd y 14 adeilad swyddfa a feddiannwyd gennym ar ddiwedd y flwyddyn yn gyfanswm o 78,667 o fetrau sgwâr, i lawr o 101,888 y llynedd. Cafodd swyddfeydd Nottingham a Peterborough eu hadleoli'n llwyddiannus i adeiladau llai, mwy effeithlon, gan leihau maint y swyddfeydd hyn gan 28,797 metr sgwâr a thorri costau rhedeg gan £1.9 miliwn y flwyddyn.

Mae'r adeilad a arferai gael ei feddiannu gan gyn Swyddfa Nottingham yn cael ei farchnata ar hyn o bryd ar gyfer datblygiad preswyl tra bo cyn adeilad Swyddfa Peterborough wedi cael ei ddychwelyd i'r landlord.

Mae cyn Swyddfa Lytham wedi cael ei werthu am £3.1 miliwn ac mae Drakes Hill Court yn Plymouth yn cael ei farchnata. Mae ein hadeilad yn Stevenage yn parhau ar y farchnad i'w waredu. Caewyd ein his-swyddfa yn Portsmouth ym mis Mawrth ac mae'r eiddo lesddaliad wedi cael ei ddychwelyd i'r landlord, gan leihau'r ystad gan 277 metr sgwâr arall.

Roedd ein hystad a feddiannir fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng o 16.87 metr sgwâr i 14.13 metr sgwâr.

Roedd ein cyfanswm gwariant ar eiddo (gan gynnwys rhent, trethi busnes a thaliadau gwasanaeth) a rheoli cyfleusterau (gan gynnwys gwasanaethau, post a reprograffeg) tua £23 miliwn. Roedd ein gwariant ar wasanaethau wedi'u contractio allan gyda'r darparwr rheoli cyfleusterau Carillion yn £10 miliwn, gan gynnwys gwaith prosiect mawr gwerth £0.8 miliwn.

Rydym yn parhau i rannu lle dros ben yn ein hadeiladau ag adrannau eraill o'r llywodraeth a gwelwyd cydleoli mawr eleni yng Nghaerloyw gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae mentrau tebyg eraill ar y gweill yn Hull, Telford a Phenbedw.

# Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch corfforol yn cael ei orchwylio gan y Pwyllgor Diogelwch Corfforol a Phersonél. Cofnodwyd 81 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 10 digwyddiad o bwys (Dosbarth 1).

# Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfrifoldeb corfforaethol, gan gydweithio'n agos â Busnes yn y Gymuned i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo a chorffori ymddygiad busnes cyfrifol yn ein sefydliad. Mae pobl y Gofrestrfa Tir wedi parhau i wirfoddoli yn y gymuned, a dymunwn annog mwy o staff i wirfoddoli trwy hyrwyddo ein polisi gwirfoddoli a gweithgareddau penodol.

Mae cydweithwyr yn swyddfeydd Plymouth a Systemau Gwybodaeth wedi parhau i wirfoddoli fel hyfforddwyr swyddi gyda Shekinah Mission, y partner cyflenwi lleol yn Plymouth a Torbay ar gyfer ymgyrch Gweithredu Busnes ar Ddigartrefedd Busnes yn y Gymuned. Mae o fudd mawr i'r gymuned leol ac mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi elwa'n bersonol drwy fagu hyder a datblygu eu sgiliau rhyngbersonol eu hunain.


t and equipment
Property
Freehold
Land
Buildings
£'000
19,360
(5,398)
13,962

# Datganiad llywodraethu

Yn dilyn cychwyn fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu ar 13 Mai 2013, caf wybodaeth am y datganiad hwn gan drefniadau pontio a throsglwyddo priodol a'r nodiadau briffio gan fy nghyfarwyddwyr gweithredol.

## Maes cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir, rwyf yn gyfrifol, ar y cyd â Bwrdd y Gofrestrfa Tir, am gynnal llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni nodau, amcanion a thargedau'r Gofrestrfa Tir gan warchod cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r Gofrestrfa Tir.

Mae fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus. Rwyf yn atebol am berfformiad a stiwardiaeth drwy Fwrdd y Gofrestrfa Tir i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, gyda chyfrifoldeb o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog dros Gysylltiadau Cyflogaeth, Defnyddwyr a Materion Post.

Mae'r prif ddyletswyddau o ran cynnal y gofrestr o deitl i dir rhydd-ddaliol a phrydlesol wedi'u diffinio yn Neddf Cofrestru Tir 2002 (gweler tudalen 5). Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu fel adran anweinidogol, cronfa fasnachu ac asiantaeth weithredol.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod y Gofrestrfa Tir yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau uchaf o reolaeth fewnol a rheoli risg effeithiol. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar brosesau sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth y Gofrestrfa Tir, yr amcanion strategol a'r targedau. Ei nod yw gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r cyfleoedd a'r risgiau hynny (a'r effaith os cânt eu gwireddu) a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn bwriadu cyfateb â nodau strategol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'n dyletswyddau statudol a bennwyd yn Nogfen Fframwaith 2012. Mae'r fframwaith yn cydymffurfio â'r cod newydd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet, llywodraethu corfforaethol yn adrannau llywodraeth ganol: Cod ymarfer da 2011. Mae'r fframwaith a ddisgrifir wedi bod yn ei le drwy gydol 2012/13 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon.

## Elfennau allweddol y fframwaith

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adran anweinidogol o'r llywodraeth. Rydym hefyd yn aelod o'r Grŵp Data Cyhoeddus o dan nawdd Busnes, Arloesedd a Sgiliau ynghyd â'r Arolwg Ordnans, y Swyddfa Feteorolegol a Thŷ'r Cwmnïau. Tasg y Grŵp yw ysgogi arbedion effeithlonrwydd a synergedd rhwng ei aelodau ac eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell a mwy effeithlon.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys:

- Dogfen Fframwaith 2012
- cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir
- cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio
- cylch gorchwyl y Pwyllgor Tâl ac Enwebu
- cylch gorchwyl y Bwrdd Gweithredol a'i is-bwyllgorau ategol
- materion a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd Gweithredol

- cofnodion a phwyntiau cyfathrebu
- gwybodaeth am y Strategaeth Fusnes newydd a llinynnau portffolio cysylltiedig.

Mae'r fframwaith llywodraethu hefyd yn cynnwys cylchau gorchwyl, penderfyniadau allweddol a gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer:

- cynrychiolaethau awdurdodau
- is-bwyllgorau dan arweiniad cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol
- pwyllgorau ail haen berthnasol dan arweiniad Penaethiaid y Grŵp
- y Strategaeth Fusnes newydd.

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth i greu amgylchedd lle mae perfformiad a risg yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynnwys y Cadeirydd Anweithredol Mark Boyle a finnau fel y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a hyd at bedwar cyfarwyddwr anweithredol.

Cafodd strwythur y Bwrdd a ddisgrifir uchod ei weithredu i roi mwy o gydbwysedd i'r aelodaeth cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r aelodaeth anweithredol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Rôl y Bwrdd yw rhoi arweiniad, goruchwylio ac arbenigedd anweithredol, megis ym maes strategaethau digidol a data a datblygiad strategol.

Mae'r aelodau anweithredol presennol yn annibynnol ar reolaeth. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o benodiadau cwmni neu drefniadau ymgynghoriaeth gan aelodau'r Bwrdd a allai greu gwrthdaro buddiannau posibl gyda'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd oedd heb gael sylw priodol.

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, tasg Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw rhoi cyngor a goruchwylio pum brif faes.

- Eglurder strategol.
- Synnwyr masnachol.
- Pobl dalentog.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Gwybodaeth rheoli.

Yn fwy penodol, pwrpas y Bwrdd yw cefnogi, herio'n adeiladol a darparu arweiniad i'r Bwrdd Gweithredol, goruchwylio datblygu a chyflawni'r Strategaeth Fusnes a gytunwyd a sicrhau bod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu rheoli'n briodol.

Dangosir cofnodion presenoldeb prif bwyllgorau Bwrdd y Gofrestrfa Tir gyferbyn.

Tabl yn crynhoi cyfanswm posibl cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor a'r presenoldeb gwirioneddol ar gyfer pob aelod Bwrdd a phwyllgor hyd at 31 Mawrth 2013

| | Teitl | Cyfnod | Bwrdd | | Pwyllgorau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd y Gofrestrfa Tir | Bwrdd Gweithredol | Archwilio | Tâl ac Enwebu |
| **Anweithredol** | | | | | | |
| Mark Boyle | Cadeirydd Anweithredol | | 10/10 | | | 2/2 |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 8 Gorff 2012 | 7/7 | | 2/2 | |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 8 Gorff 2012 | 7/7 | | | 2/2 |
| Kirsty Pearce[1] | Cyfarwyddwr Anweithredol | o 1 Tach 2012 | 5/5 | | | |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio | o 19 Maw 2013 | | | 1/1 | |
| Vaughan Williams | Aelod anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio | tan 31 Rhag 2012 | | | 3/3 | |
| Dr Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol | tan 31 Maw 2013 | 8/10 | | 3/4 | |
| Jan Crosby | Cyfarwyddwr Anweithredol | tan 31 Hyd 2012 | 6/6 | | | |
| **Gweithredol[2]** | | | | | | |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | | | 9/11 | | |
| Paul Hemsley | Cyfarwyddwr Cyllid | o 21 Chwe 2013 | 2/2 | 1/1 | 1/1 | |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | | 10/10 | 10/11 | | |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro | wedi mynychu cyfarfodydd o Hyd 2012 | | 6/6 | | |
| Eddie Davies | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro | wedi mynychu cyfarfodydd o Dach 2012 | | 3/5 | | |
| Jon Cocking[3] | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro | wedi mynychu cyfarfodydd o Faw 2013 | | 1/1 | | 1/1 |
| David Cleasby[4] | Pennaeth Grŵp Gweithrediadau Canolog a Rheolwr Ardal | | | | 3/4 | |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol | | | | 4/4 | |
| External Audit[5] | Pennaeth Archwilio Mewnol | | | | 4/4 | |
| Annette Davies-Govett | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | | | 4/6 | | |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | tan 13 Mai 2013 | 9/10 | 10/11 | 3/4 | 2/2 |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid | yn y swydd tan 19 Maw 2013 | 9/9 | 8/10 | 4/4 | |
| David Evans[3] | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro | yn y swydd tan 15 Maw 2013 | | 7/10 | | 2/2 |
| John Wright[4] | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | yn y swydd tan 30 Medi 2012 | | 5/5 | 2/2 | |

1 Wedi mynychu Bwrdd y Gofrestrfa Tir mis Hydref.
2 Bwrdd Gweithredol mis Mehefin wedi'i ganslo.
3 Wedi mynychu i gynghori ar gylch gorchwyl tâl a fframwaith tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil.
4 Wedi mynychu'r Pwyllgor Archwilio fel aelodau, nid yn eu rhinweddau gweithredol.
5 Nid yw Archwilio Allanol yn rhan o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r tabl yn dangos presenoldeb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn y Pwyllgor Archwilio.

Nodyn: Mae'r colofnau presenoldeb yn dangos presenoldeb gwirioneddol ar gyfer y mynychwyr/yn erbyn y nifer bosibl o gyfarfodydd roeddent yn gallu eu mynychu.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r swyddogion anweithredol wedi chwarae rhan lawn ym musnes Bwrdd y Gofrestrfa Tir drwy eu presenoldeb a'u cyfraniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ategol fel y crynhoir uchod. Roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi chwarae rhan weithredol a chryf wrth gefnogi a herio datblygiad y Strategaeth Fusnes.

## Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn derbyn cerdyn sgorio cytbwys o wybodaeth perfformiad. Rwy'n hapus bod y system i ddarparu gwybodaeth perfformiad yn gryf ac yn darparu gwybodaeth amserol briodol i sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol. Cyfaniad allweddol i'r casgliad hwn yw'r gwerthusiad a roddwyd i mi gan Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd systemau dangosydd perfformiad allweddol.

Mae perfformiad ariannol yn seiliedig ar system gadarn. Mae gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol yn erbyn cyllidebau a rhagolygon blwyddyn gyfan. Rhoddir arweiniad a hyfforddiant i sicrhau bod ymddygiad deiliaid cyllideb yn gyson ac rwy'n fodlon bod tanwariant yn cael ei ildio neu fod gorwariant yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl ond os ydynt yn codi eu bod yn cael sylw er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i gyrraedd y targedau a gyhoeddwyd.

## Pwyllgorau Bwrdd y Gofrestrfa Tir

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadeirio gan Tim Franklin o 10 Mehefin 2013 yn dilyn ymddiswyddiad Dr Catherine Raines. Mae'r aelodau a wasanaethodd i'w gweld yn y tabl blaenorol ynghyd â'r mynychwyr, gan gynnwys y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a staff eraill sy'n mynychu drwy wahoddiad.

Mae'r pwyllgor yn cynorthwyo Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd drwy gyfrwng gwybodaeth ac adroddiadau ar:

- y broses strategol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu hwn
- y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys lefelau'r gwallau a nodwyd a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol
- gweithgareddau bwriadedig seiliedig ar risg arfaethedig a chanlyniadau Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli Archwilio Allanol
- sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol i'r sefydliad
- polisïau atal twyll, prosesau chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd.

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu**
Cadeiriwyd y Pwyllgor Tâl ac Enwebu gan Mark Boyle. Daeth y pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod yn bresennol yn y pwyllgor i gynghori ar agweddau ar berfformiad mewn perthynas â'r proffesiwn cyfreithiol. Mae hyn yn ei le bellach.

**Y Bwrdd Gweithredol**
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn fy nghynorthwyo yn fy nghyfrifoldebau dros reolaeth a chyfeiriad gweithredol, datblygu strategaeth, rheoli risg strategol, perfformiad yn erbyn targedau cyhoeddedig, dyletswyddau statudol, penderfyniadau a datblygu cynllunio portffolio buddsoddi'r Gofrestrfa Tir.

Bob mis, ar y cyd â'r Bwrdd Gweithredol, adolygaf berfformiad ariannol a gweithredol y Gofrestrfa Tir gan asesu cynnydd tuag at y targedau blynyddol cyhoeddedig. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r adnoddau ariannol a ddefnyddiwyd, rhagolygon ariannol ac asesiad o'r sefyllfa ariannol. Wedi'i gorffori yn yr adolygiad misol mae gwerthusiad o'r risgiau strategol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i roi amrywiaeth wrth wraidd ei strategaeth cwsmeriaid a phobl. Mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth yn adrodd i mi ac yn fy helpu i sicrhau cynnydd da yn erbyn targedau ac amcanion cydraddoldeb yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol yn adrodd i mi ac yn rhoi sicrwydd i mi fod ein cyfrifoldebau cymunedol ehangach yn cael eu cyflawni'n briodol.

**Archwilwyr**
Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n adrodd i'r Senedd, wedi archwilio'r cyfrifon (gweler tudalennau 15 a 62).

**Risg**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risgiau'n effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir gyfan. Dirprwyaf yn ffurfiol gyfrifoldeb dros reolaeth fewnol a digonolrwydd y trefniadau sicrwydd, yn yr un modd â llywodraethu corfforaethol yn ei gyfanrwydd, i gyfarwyddwyr unigol y Gofrestrfa Tir. Cyflwynant ddatganiad i mi bob blwyddyn sy'n cadarnhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg yn ei lle a'i bod yn gweithio o fewn eu maes cyfrifoldeb.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried risgiau strategol. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw hyrwyddwr risg y Bwrdd Gweithredol. Yn ystod 2012/13 gwerthuswyd yr archwaeth risg ar gyfer pob risg strategol gan y Bwrdd Gweithredol. Bob mis mae'r risgiau strategol yn cael eu hadrodd a'u hadolygu yn y Bwrdd Gweithredol; mae adroddiad risg mwy trylwyr yn cael ei lunio bob chwarter hefyd. Mae dangosyddion arweiniol yn cael eu monitro i roi rhybudd cynnar o newidiadau i risg strategol.

Wynebwn heriau a risgiau i gyflawni ein hamcanion busnes strategol. Mae'r risgiau strategol yn canolbwyntio ar warchod cyfanrwydd y gofrestr, canolbwyntio ar y Strategaeth Gwsmeriaid a'r gallu i ymdopi ag amrywiadau mawr ym maint y gwaith. Mae risgiau strategol hefyd yn adlewyrchu'r materion ynghylch gweithredu'r Strategaeth Fusnes, gan gynnwys pobl a gallu.

Cyfrannwyd at Gynllun Gwydnwch Sector y Llywodraeth 2012 oherwydd mae asedau Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol (Categori 4, Cyllid) gennym. Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, yn cydnabod dau faes 'Arfer Da' a dau faes 'Arfer Gorau' yn ein strategaeth wydnwch gyffredinol.

Mae strategaeth rheoli risg yn ei lle ar bob lefel o'r sefydliad i sicrhau bod risgiau'n cael eu rhwystro'n effeithiol. Drwy ddirprwyo i gyfarwyddwyr gweithredol caf fy sicrhau gan waith y cyrff gwneud penderfyniadau gan gynnwys y Pwyllgor Cynllunio Cyllidebu a Buddsoddi, y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, y Pwyllgor Gwarchod y Gofrestr, y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Mae'r gwaith o reoli'r risgiau ariannol, risg gwybodaeth, risg i'r Gofrestr Tir a'r dyletswyddau iechyd a diogelwch a statudol yn cael eu rheoli gan y pwyllgorau hyn a'u cyfeirio ataf fel y bo'n briodol, yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer pob pwyllgor.

Mae rheoli risg ar gyfer y portffolio Strategaeth Fusnes newydd yn cael ei ddatblygu o fewn pob llinyn gyda chymorth y Ganolfan Rhaglen a Phrosiect. Bydd yn adeiladu ar y datganiad risg lefel uchel yn y ddogfen strategaeth. Mae'r Ganolfan yn goruchwylio risg cysylltiedig â newid.

Ceir sicrwydd drwy ymgysylltu â'r Grŵp Cynllunio Busnes, Sicrwydd a Rheoli Risg ac archwiliad ac adroddiad blynyddol gan archwilio mewnol i gadarnhau bod y system ar gyfer adnabod a rheoli risgiau busnes allweddol yn cael eu gweithredu'n briodol. Yn ogystal caf sicrwydd ynghylch y risg i'r gyfarwyddiaeth drwy ddatganiadau sicrwydd fy nghyfarwyddwyr bob chwe mis a chymorth y Grŵp Cynllunio Busnes, Sicrwydd a Rheoli Risg drwy'r Cyfarwyddwr Cyllid sy'n cynnal ymarferion sicrhau risg treigl i werthuso a datblygu cydymffurfiaeth â'r paramedrau rheoli risg wedi'u diffinion gan y Bwrdd Gweithredol. Mae digwyddiadau a thueddiadau yn cael eu monitro, gan gynnwys gan y Grŵp Cynllunio Busnes, Sicrwydd a Rheoli Risg, a'u cyfeirio ataf lle y bo'n briodol.

Roedd adolygiad archwilio mewnol o reoli risg i'r gyfarwyddiaeth yn 2011/12 wedi nodi cyfleoedd i wella rheoli risg ymhellach drwy'r datblygiad ychwanegol o archwaeth risg lleol, a gweithredwyd ar hyn yn 2012/13. Roedd gwaith pellach yn cynnwys diwygiadau i'r fframwaith ar gyfer rheoli risg i'r gyfarwyddiaeth, datganiadau ar archwaeth risg, datblygu canllawiau diwygiedig i'r fewnrwyd gydag enghreifftiau a gafodd eu datblygu gydag Archwilio Mewnol, a dau weithdy risg oedd gyda mewnbwn gan ymarferwyr risg allanol yn y llywodraeth.

Rhaid i bob aelod o staff gwblhau'r lefelau priodol o fodiwlau Dysgu'r Gwasanaeth Sifil ar ddiogelu gwybodaeth ac atal twyll a llygredd.

**Risg gwybodaeth**
Rheolir risg gwybodaeth drwy'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, dan arweiniad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Mewn ymateb i'r bygythiad cynyddol o ymosodiadau meddalwedd maleisus rydym wedi cryfhau ac ehangu ein rheolaethau gwrthfeirysau. Rydym hefyd wedi adolygu a thynhau'r gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu ein ffeiliau log cyfrifiadurol. Caf sicrwydd gan ardystiad y Gofrestrfa Tir sy'n cydymffurfio ag ISO 14001, ISO 20000 ac ISO 27001 a chan achrediad ar gyfer Cod Cysylltu GSI, IAMM a CMMI.

**Amgylchedd risg**
Mae ein risgiau strategol yn cael eu hasesu bob mis ac yn destun adolygiadau llawn bob tri mis. Mae'r amgylchedd risg cyffredinol ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi parhau'n wastad ar y cyfan. Os yw risgiau wedi cael eu gwerthuso fel rhai coch, cânt eu cyfeirio at lefel Bwrdd ac mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi yn eu lle.

**Archwaeth risg**
Mae ein fframwaith rheoli risg yn cynnwys methodoleg ar gyfer pennu archwaeth risg. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymatebion i bob risg neu grwpiau o risgiau yn gadarn ac yn gymesur. Mae archwaethau risg strategol unigol yn cael eu mesur yn erbyn meini prawf ariannol, enw da a pherfformiad.

**Y Fforwm Sicrwydd**
Mae dau bwrpas i'r Fforwm Sicrwydd. Mae'n gwella ansawdd ein cynllunio sicrwydd drwy gyfathrebu rheolaidd rhwng y darparwyr amrywiol ac mae'n sicrhau bod dyblygu'r ymdrech sicrwydd ar draws y sefydliad yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Gofrestrfa Tir ac i'r cyfarwyddwyr gweithredol ar gywirdeb y ffynonellau sicrwydd a nodwyd ym mhob un o fapiau sicrwydd y gyfarwyddiaeth. Gan weithio'n chwarterol, mae'r fforwm yn gwerthuso mapiau sicrwydd y gyfarwyddiaeth yn fanwl ac yn ystyried sut y mae'r ffynonellau sicrwydd yn lliniaru'r risgiau penodedig i'r gyfarwyddiaeth a'r risgiau strategol cysylltiedig. Roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi adolygu cynnydd y Fforwm Sicrwydd yn Hydref 2012.

**Colledion data**
Yn ystod y flwyddyn cafodd un achos o golli data personol ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ymwneud â phapurau personél a gafodd eu hadfer yn ddiweddarach. Cafodd y papurau eu hadfer a rhoddwyd gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwybodaeth bellach am yr achosion o golli data sydd heb gael eu hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gael yn yr adran gwybodaeth gryno.

**Contractwyr**
Cyflogwyd pum contractwr drwy asiantaethau cyflogaeth. Mae'r camau sy'n ofynnol gan adolygiad Alexander a chan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi cael eu cwblhau a chafwyd y sicrwydd priodol ar gyfer trethiant.

**Llywodraethu ac effeithiolrwydd**
Yr wyf i fel y Swyddog Cyfrifyddu ynghyd â'r Bwrdd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol. Mae tystiolaeth o berfformiad a rheoli risg wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr o fewn y Gofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, caf sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheoli risg, a rheolaethau cysylltiedig sy'n ceisio rheoli risg a sicrhau cyflenwi perfformiad a stiwardiaeth asedau yn effeithiol gan bob un o'm cyfarwyddwyr Bwrdd Gweithredol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013. Caf wybod gan waith y Fforwm Sicrwydd bod mapiau sicrwydd yn dangos bod y ffynonellau sicrwydd priodol yn eu lle i liniaru risgiau i'r gyfarwyddiaeth. Mae pob un o'm cyfarwyddwyr wedi cadarnhau eu bod wedi adolygu'r ffynonellau sicrwydd a restrir ar eu mapiau sicrwydd ac mae'r ffynonellau sicrwydd hynny wedi nodi bod y risgiau yn cael eu rheoli'n briodol a bod rheolaethau priodol yn eu lle.

Caf sicrwydd fod perfformiad y sefydliad yn effeithiol drwy ddefnyddio'r ganolfan Perfformio ac Arloesi a ddefnyddir gan y Bwrdd Gweithredol. Mae'r ganolfan wybodaeth hon yn cael ei hysbysu gan y systemau perfformiad sylfaenol a'r wybodaeth risg a chaiff ei grynhoi mewn canolfan gwybodaeth gynhwysfawr sy'n cael ei hadolygu bob mis gan y Bwrdd Gweithredol. Mae sail y wybodaeth hon yn llywio'r cerdyn sgoriau cytbwys, wedi'i gyfuno ag adroddiad ariannol sy'n cael ei adolygu gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir 10 gwaith y flwyddyn. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol yn asesu ac yn monitro ein perfformiad a'r systemau rheolaeth fewnol cysylltiedig yn gyson. Mae ein harchwilwyr mewnol wedi adolygu systemau ar sail diogelwch cyllid a gwybodaeth.

Mae ein harchwilwyr mewnol yn gweithredu yn ôl y safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol mae gan y Gofrestrfa Tir systemau digonol o reoli risg a phrosesau rheolaeth a llywodraethu effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni ein hamcanion.

**Ed Lester**
Swyddog Cyfrifyddu
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2013

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol mewn ffurf ac ar sail a osodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 67. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i incwm a'i gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro sylweddol yn y datganiadau ariannol, a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

# Adroddiad tâl

## Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
- targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn cael ei osod gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae adolygiadau tâl blynyddol yn gyfrifoldeb Pwyllgor Tâl y Gofrestrfa Tir ond yn 2012 roedd y Gofrestrfa Tir yn destun ail flwyddyn o rewi tâl sector cyhoeddus am ddwy flynedd a osodwyd gan Gyllideb frys 2010.

Mae Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, sy'n gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer Uwch Weision Sifil y Gofrestrfa Tir, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl Uwch Weision Sifil oedd: Mark Boyle (Cadeirydd), Catrina Holme a Malcolm Dawson.

## Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Yn unol â rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus ni thalwyd unrhyw gynnydd i fyny'r raddfa gyflog yn 2012 ac ni chafodd graddfeydd tâl eu hailbrisio. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau canolog talwyd cynnydd o £250 i weithwyr ar y ddwy radd weinyddol oedd yn ennill llai na £21,000 y flwyddyn. Roedd dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn cael eu talu yn seiliedig ar berfformiad a aseswyd drwy'r system arfarnu flynyddol.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai y nodir fel arall, mae'r holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r contract yn gynnar i gyfarwyddwyr ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw ar sail camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

## Cadeirydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae penodiad y Cadeirydd Mark Boyle wedi cael ei estyn gan ddeunaw mis o 24 Ebrill 2013 ar sail dau ddiwrnod yr wythnos.

## Prif Weithredwr

Daeth penodiad Malcolm Dawson i ben ar 31 Mai 2013. Penodwyd Ed Lester o 22 Ebrill 2013 am gyfnod o dair blynedd ac mae'n amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis.

## Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro

Penodwyd Paul Hemsley o 21 Chwefror 2013 ar sail tymor byr drwy asiantaeth dros dro gweithredol.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae penodiadau Tim Franklin a Catrina Holme o 8 Gorffennaf 2012 am gyfnod na fydd yn fwy na thair blynedd fel rheol.

Mae penodiad Kirsty Pearce o 1 Tachwedd 2012 am gyfnod na fydd yn fwy na thair blynedd fel rheol. Mae'n cynrychioli buddiannau'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan y Gofrestrfa Tir.

## Cyflog a thâl perfformiad - cyfarwyddwyr gweithredol[1]

| | 2012/13 | | | 2011/12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau |
| | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf |
| Malcolm Dawson OBE[2]<br>Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 105 – 110 | 15 – 20 | – | 105 – 110 | – | – |
| John Peaden[3]<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 85 – 90 | 10 – 15 | – | 80 – 85 | 5 – 10 | 200 |
| Alasdair Lewis<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 95 – 100 | – | – | 90 – 95 | – | – |
| David Evans[4]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br>(tan 19 Ebrill 2013) | 80 – 85 | – | – | 80 – 85 | 0 – 5 | – |
| Jon Cocking<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro (o 25 Chwefror 2013) | 5 – 10 | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (65 – 70) | – | – | – | – | – |
| Heather Foster[5]<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 90 – 95 | – | – | 90 – 95 | – | – |
| Paul Hemsley[6]<br>Cyfarwyddwr Cyllid<br>(o 21 Chwefror 2013) | 25 – 30 | – | – | – | – | – |
| John Wright[7]<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth<br>(tan 15 Hydref 2012) | 70 – 75 | 5 – 10 | – | 100 – 105 | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (100 – 105) | – | – | – | – | – |
| Rowland Coombs<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth<br>(o 1 Hydref 2012) | 35 – 40 | 0 – 5 | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (70 – 75) | – | – | – | – | – |
| Annette Davies-Govett<br>Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 90 – 95 | – | – | 90 – 95 | – | – |
| Eddie Davies<br>Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro<br>(o 1 Ionawr 2013) | 15 – 20 | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (65 – 70) | – | – | – | – | – |

1 Wedi'i archwilio.

2 Gadawodd Malcolm Dawson y Gofrestrfa Tir gyda dyddiad gadael o 13 Mai 2013.

3 Mae'r tâl ar gyfer John Peaden yn 2011/12 wedi'i ddadansoddi rhwng tâl sylfaenol a bonws perfformiad.

4 Gadawodd David Evans y Gofrestrfa Tir ar 15 Mawrth 2013 gyda dyddiad gadael o 19 Ebrill 2013.

5 Gadawodd Heather Foster y Gofrestrfa Tir ar 19 Mawrth 2013 gyda dyddiad gadael o 19 Ebrill 2013.

6 Penodwyd Paul Hemsley fel Cyfarwyddwr Cyllid o 21 Chwefror 2013. O dan delerau'r penodiad hwn derbyniodd asiantaeth dros dro gweithredol £30,160 ar gyfer gwasanaethau safonol, ac o hyn fe gadwodd yr asiantaeth £4,160.

7 Gadawodd John Wright y Gofrestrfa Tir ar 30 Medi 2012 gyda dyddiad gadael o 15 Hydref 2012.

Nodyn: Penodwyd Ed Lester fel Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredol y Gofrestrfa Tir o 22 Ebrill 2013 gyda dyddiad dechrau o 13 Mai 2013.

**Cyflog - cyfarwyddwyr anweithredol[1]**

| | 2012/13<br>£'000 | 2011/12<br>£'000 |
|---|---|---|
| Mark Boyle<br>Cadeirydd Anweithredol | 60 – 65 | 25 – 30 |
| Blynyddol cyfatebol | – | (60 – 65) |
| Catherine Raines<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(tan 31 Mawrth 2013) | 25 – 30 | 25 – 30 |
| Jan Crosby[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(tan 31 Hydref 2013) | – | – |
| Tim Franklin<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(o 8 Gorffennaf 2012) | 10 – 15 | – |
| Blynyddol cyfatebol | (20 – 25) | – |
| Catrina Holme<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(o 8 Gorffennaf 2012) | 10 – 15 | – |
| Blynyddol cyfatebol | (20 – 25) | – |
| Kirsty Pearce[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(o 1 Tachwedd 2012) | – | – |

1 Wedi'i archwilio.

2 Mae Jan Crosby a Kirsty Pearce yn weithwyr amser llawn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau; ni chânt unrhyw dâl ychwanegol gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer eu rôl fel cyfarwyddwyr anweithredol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y codir treth y DU arnynt. Mae'r tabl gyferbyn yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a roddir gan y Gofrestrfa Tir ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau perfformiad yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae dyfarniadau perfformiad yn gysylltiedig â pherfformiad yn y flwyddyn pan gawsant eu talu i'r unigolyn. Mae'r dyfarniadau perfformiad a nodwyd yn 2012/13 yn ymwneud â pherfformiad yn 2011/12 ac mae'r dyfarniadau perfformiad cymharol a nodwyd ar gyfer 2011/12 yn ymwneud â pherfformiad yn 2010/11.

## Buddion pensiwn[1]

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2013 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | 2013 | 2012[2] | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Malcolm Dawson OBE Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 13 Mai 2013) | 0.0 – 2.5 | 0.0 – 2.5 | 40 – 45 | 125 – 130 | 747 | 703 | 4 |
| John Peaden Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 0.0 – 2.5 | 2.5 – 3.0 | 35 – 40 | 115 – 120 | 760 | 703 | 16 |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 0.0 – 2.5 | 0.0 – 2.5 | 30 – 35 | 100 – 105 | 657 | 617 | 5 |
| David Evans Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (tan 19 Ebrill 2013) | 0.0 – 2.5 | – | 50 – 55 | – | 1,000 | 992 | – 1 |
| Jon Cocking Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro (o 25 Chwefror 2013) | 0.0 – 2.5 | – | 10 – 15 | – | 153 | 151 | 1 |
| Heather Foster Cyfarwyddwr Cyllid (tan 19 Ebrill 2013) | 0.0 – 2.5 | 2.5 – 3.0 | 40 – 45 | 120 – 125 | 880 | 817 | 16 |
| John Wright Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth (tan 15 Hydref 2012) | 0.0 – 2.5 | – | 10 – 15 | – | 204 | 174 | 20 |
| Rowland Coombs Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth Dros Dro (o 1 Hydref 2012) | 0.0 – 2.5 | 4.5 – 5.0 | 25 – 30 | 85 – 90 | 549 | 493 | 27 |
| Annette Davies-Govett Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | – 2.5 – 0.0 | – | 5 – 10 | – | 111 | 105 | – 8 |
| Eddie Davies Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro (o 1 Ionawr 2012) | 0.0 – 2.5 | 1.5 – 2.0 | 15 – 20 | 55 – 60 | 260 | 251 | 7 |

1 Wedi'i archwilio.

2 Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn 2012/13. Mae'r gwerthoedd ar 31/3/12 a 31/3/13 wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r gwerth ar 31/3/12 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun buddion wedi'u diffinio; naill ai cynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus; neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r cynllun buddion wedi'u diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5 y cant a 3.9 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant a 5.9 y cant ar gyfer cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Bydd cynnydd yng nghyfraniadau gweithwyr yn gymwys o 1 Ebrill 2013.

Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid i bob pwrpas, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun.

Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy a ddewiswyd gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o'r cynllun classic, premium a classic plus a 65 oed ar gyfer aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservice-pensions.gov.uk

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniadau pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniadau pensiwn eraill pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniadau eraill y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu budd pensiwn ychwanegol o'i boced ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniadau pensiwn eraill) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cynlluniau digolledu

**Adroddiadau cynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill - pecynnau ymadael**[1]

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2012 | 2013 | 2012 | 2013 | 2012 |
| £0 - £10,000 | – | – | – | 1 | – | 1 |
| £10,001 - £25,000 | – | – | 10 | 74 | 10 | 74 |
| £25,001 - £50,000 | – | – | 7 | 127 | 7 | 127 |
| £50,001 - £100,000 | – | – | 1 | 125 | 1 | 125 |
| £100,001 - £150,000 | – | – | 2 | 10 | 2 | 10 |
| £150,001 - £200,000 | – | – | – | 1 | – | 1 |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | – | – | 20 | 338 | 20 | 338 |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£719,597** | **£15,502,499** | **£719,597** | **£15,502,499** |

1 Wedi'i archwilio

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ex-gratia yn 2012/13 (2011/12: £26,280).

## Digolledu am golli swydd

Gadawodd Heather Foster o dan delerau ymadael gwirfoddol ar 19 Ebrill 2013. Derbyniodd dâl digolledu o £147,728.

Gadawodd David Evans o dan delerau oedran ymddeol arferol ar 19 Ebrill 2013. Nid yw'r Gofrestrfa Tir wedi derbyn unrhyw atebolrwydd ychwanegol mewn perthynas â'i ymddeoliad.

Mae costau diswyddo a gadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb dan gontract i adael. Os yw'n gymwys, mae'r costau ychwanegol o brynu allan budd pensiwn is yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cymarebau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

| | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 120 – 125 | 105 – 110 |
| — gan gynnwys y cyfarwyddwr dros dro (£'000) | 220 – 225 | – |
| **Cyfanswm canolrif (£)** | **26,166** | **25,231** |
| Cymhareb tâl | 4.7 | 4.3 |
| — gan gynnwys y cyfarwyddwr dros dro | 8.5 | – |

Yn 2012/13, ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £120,000 – £125,000 i £15,000 – £20,000 (2011/12: £105,000 – £110,000 i £15,000 – £20,000).

Er bod y sefydliad wedi gweithredu'r ail flwyddyn o ddwy flynedd o rewi tâl, cynyddodd gyfanswm enillion canolrif ychydig oherwydd bod y gweithlu wedi lleihau gan 148 o weithwyr rhwng 1 Ebrill 2012 ac 1 Ebrill 2013, ac roedd y mwyafrif o'r rhai a adawodd ar y graddfeydd cyflog is (RE2U neu is). Mae penodi'r cyfarwyddwr dros dro ar sail tymor byr i ddarparu parhad mewn rôl allweddol yn ystumio'r gymhareb tâl ac felly am resymau tryloywder cyflwynwyd hyn fel llinell ar wahân yn y tabl uchod.

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2013

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl hefyd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**
Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol rwyf yn ystyried goblygiadau'r rhain ar gyfer fy nhystysgrif. Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2013 a'i gwaged a gadwyd, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu

- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r adran o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r manylion, neu

- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu

- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

12 Mehefin 2013

# Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | **2013** £'000 | 2012 (Ailddatganwyd) £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm - gweithrediadau parhaus | 2 | **347,157** | 359,338 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(227,751)** | (289,909) |
| Gwarged gros | 2 | **119,406** | 69,429 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(10,515)** | (13,722) |
| **Gwarged gweithredu** | | **108,891** | 55,707 |
| Elw ar waredu asedau anghyfredol | | **3,913** | 5,170 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **1,468** | 1,170 |
| Costau cyllid | 6 | **(936)** | (878) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | 8.1, 9.1 | **(4,053)** | (4,448) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(10,529)** | (21,000) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **98,754** | 35,721 |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(25,960)** | (13,776) |
| **Gwarged a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | | **72,794** | 21,945 |
| Elw/(colled) ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **3,363** | (1,608) |
| **Gwarged cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **76,157** | 20,337 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 84 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | 2013 £'000 | 2013 £'000 | 2012 Ailddatganwyd £'000 | 2012 Ailddatganwyd £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **91,389** | | 109,186 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **17,263** | | 22,962 | |
| Eraill i'w derbyn | 11.2 | **1,126** | | 1,086 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **109,778** | | 133,234 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **1,455** | | 1,365 | |
| Masnach ac eraill i'w derbyn | 11.1 | **7,337** | | 8,366 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **472,583** | | 379,817 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **481,375** | | 389,548 |
| Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **14,344** | | 6,156 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **605,497** | | 528,938 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w talu | 13.1 | **62,617** | | 44,598 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 15.1 | **1,606** | | 2,168 | |
| Darpariaethau tymor byr | 17.1 | **10,870** | | 9,878 | |
| | | | **75,093** | | 56,644 |
| Y Gronfa Indemniad | 17.2 | | **67,800** | | 72,700 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **142,893** | | 129,344 |
| **Asedau anghyfredol gydag asedau cyfredol net** | | | **462,604** | | 399,594 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 15.1 | **6,840** | | 8,038 | |
| Darpariaethau hirdymor | 17.1 | **20,255** | | 27,591 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **27,095** | | 35,629 |
| **Asedau net** | | | **435,509** | | 363,965 |
| **Cyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 |
| Cronfa ailbrisio | | | **32,494** | | 34,001 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **341,470** | | 268,419 |
| | | | **435,509** | | 363,965 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 84 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Ed Lester**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
12 Mehefin 2013

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | **Cyfalaf Difidend Cyhoeddus** | **Cronfa Ailbrisio** | **Cronfa Incwm a Gwariant** | **Cyfanswm cronfeydd** |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ailddatganwyd | Ailddatganwyd |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2011 | 61,545 | 41,794 | 246,224 | 349,563 |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | – | (250) | 250 | – |
| Trosglwyddo i asedau a ddelir i'w gwerthu | – | (5,935) | – | (5,935) |
| Gwarged net cynhwysfawr | – | (1,608) | 67,845 | 66,237 |
| Addasiad blwyddyn flaenorol i'r datganiad o incwm cynhwysfawr | – | – | (45,900) | (45,900) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2012 | 61,545 | 34,001 | 268,419 | 363,965 |
| **Newidiadau i gronfeydd 2012/13** | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | **–** | **(257)** | **257** | **–** |
| Enillion wedi'u realeiddio ar werthu eiddo | **–** | **(4,263)** | **–** | **(4,263)** |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | **–** | **(350)** | **–** | **(350)** |
| Gwarged net cynhwysfawr | **–** | **3,363** | **72,794** | **76,157** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2012** | **61,545** | **32,494** | **341,470** | **435,509** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 84 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 20.1 | **107,783** | 84,367 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(2,515)** | (1,749) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(20)** | – |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **3,085** | 13,436 |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,403** | 1,059 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **1,953** | 12,746 |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(13,776)** | (14,006) |
| Ad-daliadau o elfen cyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(2,258)** | (2,047) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(936)** | (878) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **(16,970)** | (16,931) |
| **Cynnydd net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 20.2 | **92,766** | 80,182 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 20.2 | **379,817** | 299,635 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **472,583** | 379,817 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 84 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2012/13 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd i gynnal y busnes yn y dyfodol. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r Ddeddf ac nid yw unrhyw benderfyniadau wedi cael eu hysbysu i awgrymu y bydd diwygiad yn digwydd yn y 12 mis dilynol.

Ni ddisgwylir i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyhoeddwyd, ond sydd heb ddod i rym eto, ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu o dan sylw, gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau a ddelir i'w gwerthu, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn berthnasol, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Incwm ffioedd

Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannau tir, gan gynnwys credydau amaethyddol, ac ar gyfer incwm masnachol. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol yn y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae rhai gwasanaethau yn gofyn am dderbyn tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu nodi fel ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

### 1.4 Yswiriant

Codir yswiriant i'r datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer yswirio eiddo, lifftiau, cerbydau, defnyddio ceir hur a theithio dramor.

### 1.5 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel cost yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau.

Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb na ellir ei wrthdroi i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynllun neu o ganlyniad i annog diswyddo gwirfoddol.

**1.6 Pensiynau**

Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n cael budd o wasanaethau'r gweithwyr drwy dalu i mewn i'r Cynllun symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth dros dalu buddion yn y dyfodol yn dâl ar y Cynllun. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet o dan Flwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

**1.7 Eiddo, offer a chyfarpar**

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith', a chafodd ei gynnal y flwyddyn ariannol hon yn Ionawr 2013. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf yn Ionawr 2011. Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol eraill yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg. Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys am ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys am gost hanesyddol llai'r dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio.

Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | | 2 y cant |
| Adeiladau prydlesol | | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | | 20 y cant |
| Offer swyddfa | | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm | 20 y cant |
| | mini a chyfrifiaduron personol | 33$^{1}/_{3}$ y cant |
| Cerbydau modur | | 25 y cant |
| Ceblo strwythuredig | | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthiant yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

**1.8 Amhariad o asedau anghyfredol**

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd, oni bai bod yr ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, ac os felly mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i'w werthu a gwerth ei ddefnyddio. Wrth asesu gwerth ei ddefnyddio mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgownt gymwys y llywodraeth sef 3.5 y cant.

**1.9 Asedau anniriaethol**

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu tair system i gyflwyno e-wasanaethau ac mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio erbyn hyn. Mae cost datblygu systemau TG (porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r costau hyn yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o 10 y cant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y systemau, a bennwyd drwy gyfeirio at oes ddefnyddiol asedau tebyg eraill a defnyddir yn y Gofrestrfa Tir. Mae'r systemau yn cael eu hasesu am arwyddion o amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar linell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Prif ffrâm | 20 y cant |
| Bwrdd gwaith | $33^{1}/_{3}$ y cant |

**1.10 Stocrestrau**

Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gost a gwerth realeiddio net, sy'n seiliedig ar y ffi, llai costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r achos.

**1.11 Masnach i'w dderbyn**

Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan ar ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasamcan o werth teg.

**1.12 Arian parod ac arian parod cyfatebol**

Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol.

**1.13 Masnach i'w dalu**

Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan ar ei werth nominal. Ystyrir bod swm cario masnach i'w dalu yn frasamcan o werth teg.

**1.14 Deilliadau wedi'u corffori**

Mae deilliadau wedi'u corffori mewn contractau lletyol yn cael eu trin fel deilliadau ar wahân os nad yw eu risgiau a'u nodweddion wedi'u cysylltu'n agos â rhai'r contract lletyol a chyfrifir amdanynt ar wahân.

Nid yw adolygiad o brif gontractau'r Gofrestrfa Tir wedi adnabod unrhyw ddeilliadau wedi'u corffori ac felly nid oes angen datgeliad ar wahân.

**1.15 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

**1.16 Y Gronfa Indemniad**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu taliadau digolledu indemniad i drydydd partïon. Mae'r taliadau hawliad yn y dyfodol yn ansicr o ran amseru a swm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Gronfa Indemniad wedi'i sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o wariant sy'n ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei phennu ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a gofnodwyd ond heb eu talu, yn ogystal â hawliadau a gafwyd ond heb eu cofnodi. Mae'r brasamcan o gost hawliadau yn cynnwys treuliau sy'n codi wrth dalu'r hawliadau hyn. (Gweler hefyd nodyn 17.2).

**1.17 Rhwymedigaethau wrth gefn**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

**1.18 Prydlesi cyllid**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw'r holl risgiau a manteision o fod yn berchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.19 Prydlesi gweithredu**
Prydles weithredu yw unrhyw brydles heblaw prydles gyllid. Codir costau rhentu o dan brydlesi gweithredu, gan gynnwys prydlesi gweithredu byrdymor ar y datganiad o incwm cynhwysfawr wrth iddynt godi.

**1.21 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat**
Mae contract Menter Cyllid Preifat â Steria yn cael ei gyfrif amdano o dan Bwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol 12 fel y'i diwygiwyd gan FReM. Mae elfen gyfalaf y gwariant o dan y contract yn cael ei chofnodi fel ased ar y fantolen ac mae'r elfen wasanaeth yn cael ei mynegi trwy'r datganiad o incwm cynhwysfawr pan fydd yn codi. Mae'r swm a gyfalafwyd yn cael ei amorteiddio dros oes fyrrach yr ased neu gyfnod y contract.

**1.22 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu yr asedau sefydlog. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.23 Difidend**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 6.3 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni cheir unrhyw effaith wirioneddol os cyfrifir y ffigur hwn drwy ddefnyddio dull arall e.e. cyfartaledd misol.

**1.24 Technegau amcangyfrif**
Technegau amcangyfrif yw'r dulliau a fabwysiadir i bennu'r symiau ariannol a amcangyfrifir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd a phrisio asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad y cyfrifon. Mae technegau amcangyfrif arwyddocaol ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn cynnwys cydnabod a phrisio incwm cronnus, Menter Cyllid Preifat, darpariaethau ymddeol a diswyddo cynnar a'r Gronfa Indemniad.

**1.25 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol**
O dan IAS 8 *Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu*, mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau mewn cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau neu gamddatganiadau.

Mae cyfrifon 2011/12 wedi cael eu hailddatgan i gydnabod atebolrwydd y Gofrestrfa Tir o geisiadau indemniad 'sydd wedi codi ond heb eu cofnodi' (IBNR). Gweler nodyn 17.2. Gwneir y newid hwn er mwyn cywiro'r hepgoriad yn y blynyddoedd blaenorol, darparu gwybodaeth fwy perthnasol am effeithiau posibl y trafodion, digwyddiadau neu amodau ar ein sefyllfa ariannol, perfformiad neu lifoedd arian.

# 2 Segmentau busnes

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â *Chanllaw ffioedd a thaliadau'r* Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 8.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyflawni dau wasanaeth statudol ar wahân: cofrestru teitl, a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost gwasanaeth a'r gwarged ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn. Mae incwm gwasanaethau masnachol anstatudol wedi'i gynnwys hefyd. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu os oes modd eu hadnabod ar wahân gyda'r gwasanaeth neu eu dosrannu yn gymesur â'r incwm a gynhyrchir gan bob segment.

| | **Statudol** | | **Anstatudol** | | Statudol | | Anstatudol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannu tir a chredydau amaethyddol** | **Incwm masnachol** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannu tir a chredydau amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | | | | **2013** | | | | 2012 Ailddatganwyd |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm | **337,929** | **4,810** | **4,418** | **347,157** | 349,494 | 4,921 | 4,923 | 359,338 |
| Cost gwasanaeth | **(220,148)** | **(4,329)** | **(3,274)** | **(227,751)** | (282,126) | (4,429) | (3,354) | (289,909) |
| Costau gweinyddol | **(10,081)** | **(241)** | **(193)** | **(10,515)** | (13,180) | (246) | (296) | (13,722) |
| **Gwarged gweithredu** | **107,700** | **240** | **951** | **108,891** | 54,188 | 246 | 1,273 | 55,707 |

# 3 Gwarged gweithredu

### 3.1 Datgenir gwarged gweithredu ar ôl codi amdano

| | **2013** | 2012 Ailddatganwyd |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **155,813** | 162,356 |
| Darpariaeth ar gyfer costau indemniad | **(4,900)** | 50,900 |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 22) | **9,029** | 8,919 |
| Hurio peiriannau | **4,540** | 6,829 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **68** | 68 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir | **5,570** | 6,521 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir | **2,910** | 2,661 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **1,395** | 2,938 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **356** | 472 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **2,447** | 2,331 |
| Incwm amrywiol | **(1,851)** | (1,906) |

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | | | | **2013** | | | | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Ymadawiad cynnar** | **RhTC a Glasbrint** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Ymadawiad cynnar | RhTC a Glasbrint | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **38** | **213** | **9,638** | **9,889** | 397 | 14,083 | 4,850 | 19,330 |
| Costau a ddarparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | **608** | **32** | **–** | **640** | 2,060 | (390) | – | 1,670 |
| | **646** | **245** | **9,638** | **10,529** | 2,457 | 13,693 | 4,850 | 21,000 |
| Elw ar waredu | **–** | **–** | **(4,318)** | **(4,318)** | – | – | (5,874) | (5,874) |
| | **646** | **245** | **5,320** | **6,211** | 2,457 | 13,693 | (1,024) | 15,126 |

Mae'r elw ar waredu yn cyfeirio at werthu Birkenhead House, Lytham.

# 4 Gwybodaeth gweithwyr

### 4.1 Costau staff

| | | | **2013** | | | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | **123,746** | **336** | **124,082** | 130,049 | 168 | 130,217 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **9,286** | **2** | **9,288** | 9,633 | 5 | 9,638 |
| Costau pensiwn eraill | **22,439** | **4** | **22,443** | 24,178 | 11 | 24,189 |
| Cyfanswm costau staff | **155,471** | **342** | **155,813** | 163,860 | 184 | 164,044 |
| Costau staff ar secondiad | **–** | **–** | **–** | (1,688) | – | (1,688) |
| Cyfanswm net costau staff | **155,471** | **342** | **155,813** | 162,172 | 184 | 162,356 |

### 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | **2013** | | | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | **8** | **1** | **9** | 8 | – | 8 |
| Gweithredol | **3,690** | **1** | **3,691** | 3,925 | – | 3,925 |
| Gweinyddol | **240** | **4** | **244** | 251 | 8 | 259 |
| TG | **381** | **–** | **381** | 396 | – | 396 |
| | **4,319** | **6** | **4,325** | 4,580 | 8 | 4,588 |

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 54 i 61.

### 4.4 Pensiynau

Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar gyfer 2012/13 roedd cyfraniadau cyflogwr o £22.4 miliwn (2011/12: £24.1 miliwn) yn daladwy i'r Cynllun ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 16.7 y cant a 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2012/13 sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Cyfraniadau cyflogwr y Gofrestrfa Tir i bensiynau budd-ddeiliaid partneriaeth ar gyfer 2012/13 oedd £41,975 (2011/12: £46,383). Hefyd cyfrannodd y Gofrestrfa Tir £2,793 pellach (2011/12: £3,071) i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd). Nid oedd unrhyw gyfraniadau dyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol neu gyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad yn berthnasol. Roedd pum unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronnus ychwanegol yn y flwyddyn oedd £16,410 (2011/12: £57,569).

Mae manylion pellach am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr adroddiad Tâl ar dudalennau 54 i 61 a nodyn 1.6 ar dudalen 68.

# 5 Incwm buddsoddi

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **1,468** | 1,170 |

# 6 Costau cyllid

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **936** | 878 |

# 7 Difidend i'w dalu

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend i'w dalu | **25,960** | 13,776 |

Gweler nodyn 1.23 ar dudalen 71 am y polisi cyfrifyddu sy'n ymwneud â thaliadau difidend.

# 8 Eiddo, offer a chyfarpar

### 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **19,360** | **61,767** | **27,409** | **439** | **75,477** | **5,681** | **190,133** |
| Ar 1 Ebrill 2012 | **–** | **–** | **–** | **151** | **1,798** | **796** | **2,745** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **(435)** | **185** | **–** | **(250)** |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | **–** | **2,762** | **251** | **–** | **–** | **–** | **3,013** |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | **–** | **–** | **–** | **–** | **1,359** | **3** | **1,362** |
| Ailddosbarthu asedau | **–** | **(1,046)** | **(12)** | **–** | **–** | **(156)** | **(1,214)** |
| Gwarediadau | **(5,398)** | **(8,484)** | **–** | **–** | **(5,922)** | **(1,056)** | **(20,860)** |
| Ar 31 Mawrth 2013 | **13,962** | **54,999** | **27,648** | **155** | **72,897** | **5,268** | **174,929** |
| **Dibrisiad ac amhariad cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | **–** | **12,346** | **5,633** | **–** | **58,406** | **4,562** | **80,947** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | **–** | **1,870** | **1,304** | **–** | **7,505** | **247** | **10,926** |
| Ailbrisiad cost cyfredol | **–** | **(508)** | **(629)** | **–** | **–** | **–** | **(1,137)** |
| Gwarediadau | **–** | **(382)** | **–** | **–** | **(5,904)** | **(910)** | **(7,196)** |
| Ar 31 Mawrth 2013 | **–** | **13,326** | **6,308** | **–** | **60,007** | **3,899** | **83,540** |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2013 | **13,962** | **41,673** | **21,340** | **155** | **12,890** | **1,369** | **91,389** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 19,689 | 62,012 | 29,160 | 861 | 74,716 | 30,936 | 217,374 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 40 | 3,963 | 89 | 4,092 |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | – | – | (462) | – | – | (462) |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | (329) | (44) | (1,235) | – | – | – | (1,608) |
| Ailddosbarthu asedau | – | – | – | – | 867 | – | 867 |
| Amhariad | – | (201) | (422) | – | (17) | (24) | (664) |
| Gwarediadau | – | – | (94) | – | (4,052) | (25,320) | (29,466) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 19,360 | 61,767 | 27,409 | 439 | 75,477 | 5,681 | 190,133 |

### Dibrisiad ac amhariad cronedig

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2011 | – | 11,090 | 5,008 | – | 54,836 | 27,472 | 98,406 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | 1,256 | 662 | – | 7,445 | 1,505 | 10,868 |
| Gwarediadau | – | – | (37) | – | (3,875) | (24,415) | (28,327) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | – | 12,346 | 5,633 | – | 58,406 | 4,562 | 80,947 |
| Swm yn cario ar 31 Mawrth 2012 | 19,360 | 49,421 | 21,776 | 439 | 17,071 | 1,119 | 109,186 |

Gweler nodyn 1.7 ar dudalen 68 am fanylion polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.
Gweler nodyn 1.8 ar dudalen 69 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.
Swm net y prydlesi cyllid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.19 miliwn (2011/12: £3.32 miliwn). Yn y flwyddyn roedd £0.195 miliwn o ddibrisio a £0.067 miliwn o ailbrisio yn berthnasol i'r asedau hyn.

## 8.3 Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu

Yn 2012/13 gwerthwyd Birkenhead House, Lytham ac ailddosbarthwyd dau adeilad arall, Chalfont Drive, Nottingham a Drakes Hill Court, Plymouth o asedau eiddo anghyfredol i asedau a ddelir i'w gwerthu a'u hailbrisio i werth teg llai costau i werthu. Yn 2010/11 ailbrisiwyd Brickdale House, Stevenage a Birkenhead House, Lytham am werth teg llai costau i'w gwerthu a'u trosglwyddo i asedau wedi'u dosbarthu a ddelir i'w gwerthu. Mae Stevenage yn parhau ar y datganiad o sefyllfa ariannol fel ased a ddelir i'w werthu.

# 9 Asedau anniriaethol

## 9.1 Cost

| | E ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2012 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **72,631** | **100,055** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **1** | **1** |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | **–** | **–** | **–** | **250** | **250** |
| Ailddosbarthu | **–** | **–** | **–** | **(1,362)** | **(1,362)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **(19,330)** | **(19,330)** |
| Amhariad | **–** | **–** | **–** | **(188)** | **(188)** |
| Ar 31 Mawrth 2013 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **52,002** | **79,426** |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | **3,473** | **5,722** | **367** | **67,531** | **77,093** |
| Tâl am y flwyddyn | **969** | **1,597** | **177** | **1,395** | **4,138** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **(19,068)** | **(19,068)** |
| Ar 31 Mawrth 2013 | **4,442** | **7,319** | **544** | **49,858** | **62,163** |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2013** | **5,249** | **8,648** | **1,222** | **2,144** | **17,263** |

## 9.2 Cost

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 72,017 | 99,441 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 1,045 | 1,045 |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | – | – | 462 | 462 |
| Ailddosbarthu | – | – | – | (867) | (867) |
| Gwarediadau | – | – | – | (26) | (26) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 72,631 | 100,055 |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 2,504 | 4,125 | 191 | 64,624 | 71,444 |
| Tâl am y flwyddyn | 969 | 1,597 | 176 | 2,938 | 5,680 |
| Gwarediadau | – | – | – | (26) | (26) |
| Amhariad | – | – | – | (5) | (5) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 3,473 | 5,722 | 367 | 67,531 | 77,093 |
| Swm yn cario ar 31 Mawrth 2012 | 6,218 | 10,245 | 1,399 | 5,100 | 22,962 |

# 10 Stocrestrau

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwaith ar y gweill | **1,455** | 1,365 |
| | **1,455** | 1,365 |

# 11 Masnach ac eraill i'w derbyn

### 11.1 Cyfredol

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Masnach i'w dderbyn | **2,166** | 1,602 |
| Eraill i'w derbyn | **2,201** | 3,133 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **2,970** | 3,631 |
| | **7,337** | 8,366 |

Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer darparu gwasanaethau yw dau ddiwrnod. Ni chodir unrhyw log ar yr hyn sydd i'w dderbyn. Rhoddwyd lwfans ar gyfer brasamcan o'r symiau nad oes modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau ac mae'r lwfans hwn wedi'i bennu drwy gyfeirio at brofiad diffygdalu yn y gorffennol. Bernir bod swm y fasnach ac eraill i'w derbyn yn frasamcan o'u gwerth teg.

### 11.2 Anghyfredol

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Eraill i'w derbyn | **509** | 557 |
| Rhagdaliadau | **617** | 529 |
| | **1,126** | 1,086 |

# 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **177,122** | 82,304 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **35,229** | 38,933 |
| Cronfa Benthyciadau Genedlaethol | **260,232** | 258,580 |
| | **472,583** | 379,817 |

Asedau ariannol y Gofrestrfa Tir yw gweddillion banc ac arian a masnach ac eraill i'w derbyn, sy'n cynrychioli'r uchafswm risg credyd mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach ac eraill i'w derbyn ac mae wedi'i ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn glir o lwfansau ar gyfer symiau amheus i'w derbyn, wedi'u hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol wedi'i gyfyngu oherwydd mae gweddillion banc y Gofrestrfa Tir yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Genedlaethol yn bennaf.

# 13 Masnach ac eraill i'w talu

## 13.1 Cyfredol

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Masnach i'w dalu | **1,303** | 851 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **2,697** | 2,914 |
| Eraill i'w talu | **2,343** | 2,279 |
| Croniadau | **22,031** | 17,499 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **305** | 278 |
| Rhwymedigaethau prydles cyllid Menter Cyllid Preifat | **1,301** | 1,890 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | **8,283** | 7,279 |
| Difidend i'w dalu | **25,960** | 13,776 |
| | **64,223** | 46,766 |

Mae masnach ac eraill i'w talu yn cynnwys symiau sydd i'w talu ar gyfer prynu eitemau masnach a chostau rheolaidd yn bennaf. Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer eitemau masnach a brynwyd yw 4.4 diwrnod. Bernir bod swm yr eitemau masnach i'w talu sy'n cario yn frasamcan o'u gwerth teg.

## 13.2 Anghyfredol

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **4,699** | 5,003 |
| Rhwymedigaethau prydles cyllid Menter Cyllid Preifat | **2,141** | 3,035 |
| | **6,840** | 8,038 |

# 14 Gweddillion rhynglywodraethol

## 14.1 I'w derbyn

| | **Cyfredol** | | **Anghyfredol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2013** | 2012 | **2013** | 2012 |
| **Gweddillion gyda** | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **1,832** | 2,831 | **–** | – |
| Awdurdodau lleol | **53** | 450 | **–** | – |
| Corfforaethau cyhoeddus | **–** | 1 | **–** | – |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **1,885** | 3,282 | **–** | – |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **5,452** | 5,084 | **1,126** | 1,086 |
| **Cyfanswm i'w dderbyn** | **7,337** | 8,366 | **1,126** | 1,086 |

### 14.2 Symiau i'w talu

| | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2013** | 2012 | **2013** | 2012 |
| **Gweddillion gyda** | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **34,837** | 19,684 | **–** | – |
| Awdurdodau lleol | **–** | – | **–** | – |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnach | **1,120** | 2,010 | **–** | – |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **35,957** | 21,694 | **–** | – |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **28,266** | 25,072 | **6,840** | 8,038 |
| **Cyfanswm i'w dalu** | **64,223** | 46,766 | **6,840** | 8,038 |

# 15 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 15.1 Prydlesi cyllid

| | Isafswm taliadau prydles | | Gwerth presennol isafswm taliadau prydles | |
|---|---|---|---|---|
| | **2013** | 2012 | **2013** | 2012 |
| **Symiau i'w talu o dan brydlesi cyllid** | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **2,421** | 3,086 | **1,606** | 2,168 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **5,387** | 6,662 | **2,893** | 3,935 |
| Ar ôl pum mlynedd | **7,755** | 8,460 | **3,947** | 4,103 |
| | **15,563** | 18,208 | **8,446** | 10,206 |
| Llai: taliadau cyllid yn y dyfodol | **(7,117)** | (8,002) | | |
| Gwerth presennol ymrwymiadau prydlesi | **8,446** | 10,206 | | |
| Llai: swm i'w dalu ar gyfer y taliad llawn o fewn 12 mis (wedi'i ddangos o dan rwymedigaethau cyfredol) | | | **(1,606)** | (2,168) |
| Swm i'w dalu ar gyfer y taliad llawn ar ôl 12 mis | | | **6,840** | 8,038 |

### 15.2 Prydlesi gweithredu

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu a gydnabyddir yn y flwyddyn | 2,994 | 2,732 |
| Incwm o denantiaid | (547) | (401) |
| | 2,447 | 2,331 |

Ar ddyddiad y fantolen roedd gan y Gofrestrfa Tir ymrwymiadau heb eu talu ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu canslo, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 39 | 1,201 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | 807 | 1,012 |
| Ar ôl pum mlynedd | 904 | 781 |
| Incwm sy'n ddyledus gan denantiaid | (355) | (547) |
| | 1,395 | 2,447 |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd lleol Nottingham a Peterborough.

# 16 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2013.

# 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

### 17.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Arall | Cyfanswm | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2013 | | | | 2012 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 34,866 | 856 | 1,747 | 37,469 | 46,436 | 10,519 | 166 | 57,121 |
| Ailbrisio darpariaeth | 608 | 444 | 1,693 | 2,745 | 2,668 | 856 | 1,581 | 5,105 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (7,127) | (797) | (425) | (8,349) | (13,630) | (9,273) | – | (22,903) |
| Darpariaeth wedi'i hysgrifennu'n ôl heb ei defnyddio | – | (59) | (681) | (740) | (608) | (1,246) | – | (1,854) |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | 28,347 | 444 | 2,334 | 31,125 | 34,866 | 856 | 1,747 | 37,469 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau cyfredol | | | | 10,870 | | | | 9,878 |
| Wedi'i gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol | | | | 20,255 | | | | 27,591 |
| | | | | 31,125 | | | | 37,469 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £7.2 miliwn yn 2012/13,

a darparwyd ar gyfer £7.1 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2011/12. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn ymddeol yn gynnar, ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig i'r gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau staff hynny a fydd yn gadael y Gofrestrfa Tir o dan delerau rhaglen gadael yn gynnar ffurfiol yn y dyfodol. Mae ychwanegiadau yn y flwyddyn hon yn ymwneud ag aelodau staff sydd wedi gwneud ymrwymiad cadarn i fanteisio ar y cynnig o ddiswyddo cynnar yn 2012/13. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £1.0 miliwn yn 2012/13, a darparwyd ar gyfer £0.8 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2011/12.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 37 *Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn* yn datgan: "Os yw gwerth amser yr arian yn sylweddol, dylai swm y ddarpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth." Y ffactor disgownt a gymhwyswyd i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.35 y cant. Effaith dad-ddirwyn y disgownt yn 2012/13 oedd £1.4 miliwn (2011/12: £2.4 miliwn).

## 17.2 Y Gronfa Indemniad

| | **2013** | 2012 Ailddatganwyd |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2012 | **72,700** | 21,800 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **12,496** | 8,673 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(12,496)** | (8,673) |
| Ailbrisio darpariaeth | **(4,700)** | 5,000 |
| Darpariaeth blwyddyn flaenorol ar gyfer IBNR | **(200)** | 45,900 |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **67,800** | 72,700 |

Yn dilyn adolygiad actiwariadd gan Lane, Clark & Peacock, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau a gofnodwyd ond heb eu talu wedi lleihau yn 2012/13 gan £4.7m (2011/12: cynnydd o £5m). Yn ogystal mae darpariaeth o £45.7m wedi cael ei gwneud ar gyfer hawliadau a gododd ond heb eu cofnodi (IBNR) fel ar 31 Mawrth 2013. Mae datganiadau ariannol 2011/12 wedi cael eu hailddatgan i adlewyrchu hepgor atebolrwydd presennol ar gyfer hawliadau IBNR fel ar 31 Mawrth 2012. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau IBNR fel ar 31 Mawrth 2013 yn £0.2m yn is na'r flwyddyn flaenorol. Pan fydd hepgoriad wedi'i gywiro mae angen addasiad ar gyfer y cyfnod cynharaf a gyflwynir, wedi'i gyfyngu i'r raddfa y mae'n anymarferol i wneud hynny cyn pwynt arbennig. Y data cynharaf sydd gennym ar gyfer hawliadau IBNR yw 31 Mawrth 2012, felly rydym yn gallu ailddatgan y symudiad yn ystod y flwyddyn a'r gweddill wrth gau yn unig yng nghymarebau 2011/12.

Mae asesu IBNR yn ôl ei natur yn ansicr ac felly gallai gwerth talu hawliadau ar gyfer IBNR terfynol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon a ddefnyddir yn y cyfrifon hyn gan gymaint â £10m. Mae'r meysydd ansicrwydd yn gysylltiedig â rhagdybiaethau (sy'n seiliedig ar ddata'r gorffennol) ynghylch: nifer yr hawliadau, maint ceisiadau ar gyfartaledd, nifer y ceisiadau mawr, patrymau talu, chwyddiant a chyfraddau disgownt.

# 18 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn. | **12** | 2,000 |

# 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i wallau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Roedd yr holl hawliadau sy'n aros o dan y rhwymedigaeth hon fel y dangosir isod os yw hawliad yn debygol o fod yn llwyddiannus neu beidio. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys y swm a ddarparwyd yn y ddarpariaeth Cronfa Indemniad (gweler hefyd nodiadau 1.16 a 17.2).

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Mewn perthynas â chofnodion ar y gofrestr | **15,168** | 17,593 |
| Twyll a ffugio | **20,712** | 57,366 |
| | **35,880** | 74,959 |

# 20 Nodiadau ar y datganiad llif arian parod

### 20.1 Cysoni gwarged gweithredu i'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | 2013 | 2012 Ailddatganwyd |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged gweithredu | **108,891** | 55,707 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **(7,182)** | (18,944) |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | **8,480** | 9,182 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **1,395** | 2,938 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **168** | 472 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anniriaethol | **188** | – |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | **(6,343)** | (19,652) |
| Cynnydd mewn stocrestrau | **(89)** | (150) |
| Gostyngiad mewn symiau i'w derbyn | **1,054** | 1,598 |
| Cynnydd mewn symiau i'w talu | **6,121** | 2,316 |
| (Gostyngiad)/cynnydd yn y Gronfa Indemniad | **(4,900)** | 50,900 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **107,783** | 84,367 |

### 20.2 Cysoni'r llif arian parod net i'r symudiad mewn arian parod net

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian parod net ar ddechrau'r cyfnod | **379,817** | 299,635 |
| Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | **92,766** | 80,182 |
| **Arian parod net ar ddiwedd y cyfnod** | **472,583** | 379,817 |

# 21 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 Datgeliadau *partïon cysylltiedig*, fel y'i dehonglwyd gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn cafodd nifer o drafodion sylweddol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nid yw unrhyw aelodau o'r bwrdd, aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol â'r Gofrestrfa Tir.

# 22 Partneriaethau cyhoeddus-breifat

Dyfarnwyd contract ym mis Gorffennaf 2009 i Steria am gyfnod o bum mlynedd (gyda'r dewis o'i estyn am ddwy flynedd bellach) o dan drefniadau partneriaeth cyhoeddus-breifat. Gofynnir i Steria ddylunio, gweithredu a rheoli'r seilwaith TG ar gyfer systemau cofrestru'r Gofrestrfa Tir. Bydd y seilwaith yn cynnal y Gofrestrfa Tir wrth iddi symud tuag at integreiddio ei chofrestri, cynlluniau teitl a gweithredoedd ategol cyfrifiadurol. Gweler nodyn 1.21 ar dudalen 70 am y polisi cyfrifyddu sy'n cwmpasu contract Steria.

Mae Steria yn darparu gwasanaeth wedi'i reoli a chyflawnir hyn gyda thîm ar y safle sy'n gweithio mewn partneriaeth â gweinyddwyr system lleol y Gofrestrfa Tir. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar asedau TG y Gofrestrfa Tir, mae cyfrifiaduron personol, gweinyddwyr a chanolfannau sy'n gydnaws â'r gwasanaeth wedi'i reoli yn cael eu cynnal gan Steria ar ran y Gofrestrfa Tir.

Ar gyfer 2012/13 codwyd £9.03 miliwn (2011/12: £8.92 miliwn) o dan gontract Steria ar y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae taliadau yn y dyfodol a ymrwymwyd o dan gontract Steria i'w gweld isod.

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **9,683** | 8,381 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **2,799** | 11,087 |
| Ar ôl pum mlynedd | **–** | – |
| | **12,482** | 19,468 |

Oherwydd yr hyblygrwydd sy'n rhan o'r contract, amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn a gallant newid yn dibynnu ar gynlluniau trawsnewid y Gofrestrfa Tir.

# 23 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2013** | | 2012 Ailddatganwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Targed** | Gwirioneddol | Targed |
| | **%** | **%** | % | % |
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | **23.4** | **6.3** | 8.1 | 3.5 |

O dan ganllawiau'r Gronfa Fasnachu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ceir yr egwyddor o 'gymryd un flwyddyn gyda'r llall' lle mae'r enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn cael eu defnyddio dros gyfnod o bum mlynedd yn dechrau 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf nid oes unrhyw ffigur cymharol cyfartalog. (Gweler Cofnod y Trysorlys yn atodiad C ar dudalen 88).

# 24 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 *Offerynnau ariannol: datgeliadau* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon sylweddol yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Genedlaethol.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg cyfradd llog neu risg arian gyfred.

# 25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion Safon Adrodd Ryngwladol 10 *Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi arno. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad y dystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Digwyddiad nad yw'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd**
Ar 22 Ebrill penodwyd Prif Weithredwr newydd, gyda'r cyn Brif Weithredwr yn gadael ar 13 Mai 2013. Y dyddiad trosglwyddo ar gyfer y Prif Weithredwr newydd oedd 13 Mai 2013.

# Atodiad A


Mae'r tabl isod yn amlinellu ein gweithgareddau trafodion am y flwyddyn, ynghyd â chymarebau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd bron 24 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion y Ddeddf Cofrestru Tir. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion am ein cynnydd tuag at gyflenwi electronig mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau rydym yn eu derbyn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cynyddodd cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig o 75.5 y cant yn 2011/12 i 78.1 y cant.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Gofrestrfa Tir sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriadau ar gyfer gwasanaeth ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

| | 2012/13 | | | 2011/12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd | Ceisiadau a dderbyniwyd drwy wasanaethau ar-lein | % | Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd | Ceisiadau a dderbyniwyd drwy wasanaethau ar-lein | % |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 140,455 | – | – | 146,274 | – | – |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 176,035 | – | – | 166,934 | – | – |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 128,727 | – | – | 125,285 | – | – |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig | 3,277,466 | 1,076,888 | 32.9 | 3,431,281 | 1,038,969 | 30.3 |
| | **3,722,683** | **1,076,888** | **28.9** | **3,869,774** | **1,038,969** | **26.8** |
| Ceisiadau gwasanaethau rhagarweiniol: | | | | | | |
| Copïau swyddogol | 9,396,780 | 9,076,408 | 96.6 | 9,321,067 | 8,836,530 | 94.8 |
| Chwiliadau swyddogol | 1,874,846 | 1,769,124 | 94.4 | 1,968,861 | 1,794,730 | 91.2 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai | 1,521,828 | 1,146,621 | 75.3 | 1,636,205 | 1,060,388 | 64.8 |
| | **12,793,454** | **11,992,153** | **93.7** | **12,926,133** | **11,691,648** | **90.4** |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiad: | | | | | | |
| Gweld y gofrestr | 3,797,893 | 3,797,893 | 100.0 | 3,847,098 | 3,847,098 | 100.0 |
| Gweld cynllun teitl | 645,343 | 645,343 | 100.0 | 620,568 | 620,568 | 100.0 |
| Gweld dogfen | 65,009 | 65,009 | 100.0 | 71,499 | 71,499 | 100.0 |
| Gohebiaeth | 306,570 | 65,632 | 21.4 | 320,383 | 76,256 | 23.8 |
| Ymholiadau ffôn | 1,249,427 | – | – | 1,321,872 | – | – |
| | **6,064,242** | **4,573,877** | **75.4** | **6,181,420** | **4,615,421** | **74.7** |
| | | | | | | |
| Cyfanswm ceisiadau | 23,915,223 | 17,642,918 | 73.8 | 23,306,501 | 17,346,038 | 74.4 |
| Diweddariadau cofrestr swmpus | 1,334,844 | – | – | 329,174 | – | – |
| **Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus** | **22,580,379** | **17,642,918** | **78.1** | **22,977,327** | **17,346,038** | **75.5** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 3,722,683 | 1,076,888 | 28.9 | 3,869,774 | 1,038,969 | 26.8 |
| Ceisiadau gwasanaethau rhagarweiniol | 12,793,454 | 11,992,153 | 93.7 | 12,926,133 | 11,691,648 | 90.4 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiad | 6,064,242 | 4,573,877 | 75.4 | 6,181,420 | 4,615,421 | 74.7 |
| | **22,580,379** | **17,642,918** | **78.1** | **22,977,327** | **17,346,038** | **75.5** |


# Atodiad B Ymateb i'r hinsawdd economaidd

Mae ein costau rhedeg busnes yn parhau i ostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn drwy'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig mewn ymateb i'r dirywiad yn y farchnad dai ac yn fwy diweddar ein targed effeithlonrwydd ar gyfer 2012/13 a gyrhaeddwyd.




Nodyn: siartiau heb gynnwys darpariaeth IBNR 2011/12.

Mae ein gwarged a gadwyd dros 2011/12 a 2012/13 wedi gwneud iawn am y diffyg yn dilyn y dirywiad yn y farchnad dai ac rydym mewn sefyllfa i sicrhau bod ein refeniw yn ddigonol gan gymryd un flwyddyn gyda'r llall i dalu alldaliadau.




Nodyn: siartiau heb gynnwys darpariaeth IBNR 2011/12.

Mae'r wybodaeth yn y siartiau hyn yn cael ei hategu gan y crynodeb pum mlynedd ganlynol.

## Datganiadau incwm y Gofrestrfa Tir: pum mlynedd i 2012/13

| | (Ailddatganwyd) 2008/9 £'000 | (Ailddatganwyd) 2009/10 £'000 | (Ailddatganwyd) 2010/11 £'000 | (Ailddatganwyd) 2011/12 £'000 | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm ffioedd gweithrediadau parhaus | 308,050 | 328,414 | 355,364 | 359,338 | 347,157 |
| Cost gwasanaeth | (354,634) | (292,020) | (275,675) | (289,909) | (227,751) |
| Gwarged/(diffyg) gros | (46,584) | 36,394 | 79,689 | 69,429 | 119,406 |
| Treuliau gweinyddol | (18,992) | (16,932) | (14,833) | (13,722) | (10,515) |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | (65,576) | 19,462 | 64,856 | 55,707 | 108,891 |
| Elw/(colled) ar warediadau o asedau anghyfredol | (14) | 4,037 | 39,114 | 5,170 | 3,913 |
| Incwm buddsoddi - llog derbyniadwy | 12,315 | 549 | 580 | 1,170 | 1,468 |
| Costau cyllid | (7,830) | (784) | (870) | (878) | (936) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth (trawsgludo) a ddefnyddir | – | (2,334) | (6,577) | (4,448) | (4,053) |
| Costau ad-drefnu ailstrwythuro | (50,253) | (34,609) | (87,847) | (21,000) | (10,529) |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol | (111,358) | (13,679) | 9,256 | 35,721 | 98,754 |
| Difidend yn daladwy | (18,572) | (15,279) | (14,006) | (13,776) | (25,960) |
| Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn | (129,930) | (28,958) | (4,750) | 21,945 | 72,794 |
| Enillion/(colledion) ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | – | (1,100) | 1,316 | (1,608) | 3,363 |
| Gwarged/(diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol | (129,930) | (30,058) | (3,434) | 20,337 | 76,157 |
| Cyfwerth ag amser llawn (cyfartaledd am y flwyddyn ariannol) | 7,350 | 6,525 | 5,322 | 4,588 | 4,325 |

2008/9: ailddatganwyd ar gyfer Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

2009/10: ailddatganwyd ar gyfer gwariant datblygu, wedi'u dosbarthu'n anghywir fel ased yna ei godi ar y cyfrif incwm a gwariant; £0.8m wedi'i godi yn ôl i gost gwasanaeth, ac amorteiddio wedi'i leihau gan £0.2m.

2010/11: cyfanswm lleihau e-drawsgludo yn ystod y flwyddyn oedd £10.9m, sy'n cynnwys £6.4m o gost datblygu heb ei ddefnyddio a £4m o asedau sydd eisoes yn cael eu defnyddio; datgelwyd yng nghost gwasanaeth.

2010/11: ailddatganwyd yn 2011/12 gyda dau addasiad: (i) dileu cronfa grant y llywodraeth o £4.4m a £0.5m i'r cyfrif incwm a gwariant; (ii) cafodd incwm masnachol ei wrthbwyso yn flaenorol i wariant wedi'i ailddatgan fel incwm masnachol gyda chynnydd cyfatebol mewn costau £4.9m.

2011/12: ailddatganwyd yn 2012/13 ar gyfer addasiad blwyddyn flaenorol IBNR.

# Atodiad C Cofnod y Trysorlys

## Cronfa Fasnachu Cofrestrfa Tir EM

### Cofnod Trysorlys EM dyddiedig 24 Ebrill 2012

1. Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd Cronfa Fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff Cronfa Fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r Gronfa Fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973); ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno i:

    (a) Rheoli'r gweithrediadau a gyllidir fel bod refeniw'r gronfa:

        (i) yn cynnwys yn bennaf dderbyniadau am nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y gweithrediadau a gyllidir; a

        (ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r alldaliadau sydd i'w codi'n briodol ar y cyfrif refeniw; a

    (b) Cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddir gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.

2. Sefydlwyd Cronfa Fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y gronfa fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Dyrannwyd asedau ychwanegol i'r Gronfa Fasnachu ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y Gronfa Fasnachu ei hehangu a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).

3. Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017 fydd sicrhau enillion, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan, o isafswm o 3.5 y cant gwirioneddol[1] yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus. Bydd hyn ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn llog (i'w talu ac i'w derbyn) a difidendau wedi'u mynegi fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.

4. Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 15 Rhagfyr 2003.

5. Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

[1] Caiff 3.5 y cant gwirioneddol ei gyfrifo yn flynyddol fel 3.5 y cant ynghyd â'r amcangyfrif chwyddiant diweddaraf am y flwyddyn honno, wedi'i ddarparu gan ONS. Drwy gyfrwng enghraifft barod, am y flwyddyn gyllidol 2012/13 bydd y targed ariannol yn 6.29 y cant. Cyfrifwyd hwn fel (1+3.5 y cant)* (1+2.7 y cant), gyda 2.7 y cant yn amcangyfrif chwyddiant 2012/13 ONS (ffigurau'r Cyfrifon Cenedlaethol gan ONS, http://www.hm-treasury.gov.uk/ data_ gdp_fig.htm, 22 Rhagfyr 2011).

**Trysorlys EM**
24 Ebrill 2012

TSO
Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael drwy'r canlynol:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantaethau achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-298451-4